# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Ionawr 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Hybrid

### Cofrestru cyn y cyfarfod

09.15 - 09.30

### Sesiwn gyhoeddus

09.30

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

### 2 Papurau i'w nodi

09.30

#### 2.1 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 1 - 10)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth oddi wrth Paul Griffiths: Rhannu llythyr agored at Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn mynegi pryderon am ddyfodol cystadlaethau llenyddol - 10 Rhagfyr 2024

Gohebiaeth oddi wrth Paul Griffiths: Rhannu ymateb Eisteddfod Genedlaethol Cymru i lythyr agored dyddiedig 10 Rhagfyr 2024 - 12 Rhagfyr 2024

**2.2 Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon**

(Tudalennau 11 - 12)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth oddi wrth Sean Harris yn codi pryderon am weithwyr llawrydd yn y celfyddydau yng Nghymru - 16 Rhagfyr 2024 (Saesneg yn unig)

**2.3 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru**

(Tudalen 13)

**Dogfennau atodol:**

Ymgysylltu rhyngwladol gweinidogol rhwng Rhagfyr 2024 a 10 Ionawr 2024

**2.4 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 14 - 15)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Llywydd at Fforwm y Cadeiryddion: Yn cynghori penodi cynrychiolwyr y Senedd i'r Fforwm Rhyngseneddol a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE – 7 Ionawr 2025

**2.5 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 16 - 40)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth oddi wrth Louise Miles-Payne, Cyfarwyddwr Creu Cymru: Yn darparu copi o'i Adroddiad Ciplun o'r Sector – 14 Ionawr 2025 (Saesneg yn unig)

Creu Cymru copi o'I Adroddiad Ciplun o'r Sector Rhagfyr 2024

**2.6 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

(Tudalen 41)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Yn gwahodd y

Gweinidog i roi tystiolaeth lafar ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – 14 Ionawr 2025

### 2.7 Codi tâl am arddangosfeydd

(Tudalennau 42 - 43)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Yn ymateb i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 20 Rhagfyr 2024 yn gofyn am eglurhad gan Amgueddfa Cymru ynghylch codi tâl am brofiadau ymwelwyr ac arddangosfeydd – 16 Ionawr 2025

### 2.8 Craffu ar Gomisiynydd y Gymraeg

(Tudalennau 44 - 53)

**Dogfennau atodol:**
Gohebiaeth oddi wrth Gymdeithas yr Iaith at Gomisiynydd y Gymraeg: Yn rhannu'r ymateb i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg ar ei flaenoriaethau drafft ar gyfer 2025-2030

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09.30

## Sesiwn breifat

09.30 - 11.30

## 4 Trafod papurau i'w nodi

09.30 - 09.40

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26: Trafod yr adroddiad drafft

09.40 - 10.40 (Tudalennau 54 - 100)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 (Saesneg un unig)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

10.40 - 11.00 (Tudalennau 101 - 132)

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Nodyn cyngor cyfreithiol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) (Saesneg yn unig)

## 7 Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf

11.00 - 11.20 (Tudalennau 133 - 152)

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf a awgrymir

## 8 Cymraeg i bawb?: Trafod y dull gweithredu ar gyfer ymgysylltu

11.20 – 11.30 (Tudalennau 153 – 154)

**Dogfennau atodol:**

Cynnig o ran ymgysylltu: Cymraeg i bawb?

Llythyr Agored at Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Eisteddfod.

Annwyl Gyd-Eisteddfodwyr, 10 Rhagfyr 2024

Yn sgil yr helynt a fu a'r penderfyniadau a wnaed ynghylch cystadleuaeth ***Y Fedal Ddrama*** eleni [Rhondda Cynon Taf 2024], 'rydym yn parhau i fod yn anhapus iawn gyda'r diffyg ymateb, eglurhad a thrafodaeth lawn, ynghylch y mater.

Yn eich datganiad [13 Awst 2024], nodwyd gennych *"Rydyn ni'n* ***cytuno*** *bod* ***angen sgwrs am yr hyn sydd wedi codi eleni****,* ***fel rhan o'r gystadleuaeth ei hun, ynghyd â'r sylwadau a'r dyfaliadau diddiwedd sydd wedi'u gwyntyllu*** *drwy'r wasg a'r cyfryngau dros y dyddiau diwethaf. Rydyn ni'n fodlon iawn i arwain y drafodaeth ar y cyd gyda'r sector yn yr hydref".*

A hithau bellach ar gychwyn mis Rhagfyr, yr unig ddigwyddiad a drefnwyd gennych oedd y ***"Symposiwm Rhithiol"*** rhannol gyfrinachol, ynghylch ***"Cynrychioli Cynrychiolaeth"*** lle na ddatgelwyd pwy oedd yn rhan o'r gynulleidfa. O'r ddwy awr o drafodaeth rhwng y Panel a ddewiswyd gennych, **<u>dim ond y 15 munud olaf a 3 cwestiwn a gafwyd gan y gynulleidfa</u>**, a rheiny wedi'u teipio yn y blwch cwestiynau. Nid oedd modd gwneud sylw nac ymateb i'r 100 munud arall, na'r hyn oedd yn cael ei ddweud ar y pryd, gan fod y blwch sylwadau wedi'i gyfyngu gennych. Cydymdeimlwn fod gan bawb deimladau cryfion iawn,  a bod gofyn osgoi unrhyw faterion cyfreithiol posib, ond pam na ellid fod wedi cymedroli'r sylwadau, cyn eu cyhoeddi?

Roeddem yn teimlo bod hyn yn annheg iawn a ddim yn ***"sgwrs"*** deilwng i drafod yr hyn a ddigwyddodd, na'r ***"gystadleuaeth ei hun"*** na'r ***"sylwadau a'r dyfaliadau diddiwedd sydd wedi'u gwyntyllu".*** Os am gynnal Symposiwm, oni ddylai'r "sgwrs" fod yn gwbl agored i bawb ofyn cwestiynau a thrafod pob pwynt?

Yn ystod y Symposiwm, y cyngor a roddwyd oedd bod gofyn am fwy o ***"ymchwil"*** gan y dramodwyr, a cheisio cyngor a thrafodaeth gan gynrychiolwyr o'r ***"gymuned***" sy'n cael ei drafod neu [yn eich geiriau chi] ***"y gymuned roedd y dramodydd yn honni ei chynrychioli".*** Ac eto, nodwyd a rhoddwyd sawl enghraifft **<u>mai dyna'r broses arferol a disgwyliedig ymhob ystafell ymarfer</u>** wrth baratoi ar gyfer llwyfannu gwaith theatrig. Pan ddaw'r actorion at ei gilydd gydag arbenigwyr o ba bynnag gefndir sydd ei angen, i drafod cynnwys y ddrama, i awgrymu gwelliannau a phrofiadau. Annheg a chwbl amhosib ydi disgwyl i unrhyw ddramodydd, na llenor na bardd i gynnwys barn pob aelod o'r "***gymuned"*** maent ***"yn honni ei chynrychioli".*** Onid yw'r Rhyfel yn Gaza yn brawf pendant o hynny, gan nad yr un yw'r farn, safbwynt a dealltwriaeth gan bob Iddew? Nodwyd hynny gan eich Panel gyda'r ddau aelod o "liw" yn datgan efallai na chytunai'r ddau ar yr un materion. Nodwyd dro ar ôl tro, mai **<u>meidrol ydi'r rhan helaeth o gymeriadau</u>**, waeth beth fo eu rhywedd, hil, tras, lliw, crefydd na'u hetifeddiaeth.

Mae'r modd y bu i'r Eisteddfod ymateb i'r hyn ddigwyddodd eleni yn tanseilio holl seiliau pob cystadleuaeth lenyddol yn yr Ŵyl. Dyna pam bod cynifer ohonom yn parhau i fod yn anhapus. Fe ddewiswyd y ddrama fuddugol eleni gan y beirniaid ar y sail bod yma ***"lais cyffrous ac yn safbwynt***

***ffresh a newydd i theatr yng Nghymru."*** Doedd gan y beirniaid ar y pryd ddim syniad pwy oedd y dramodydd, a dyna fel y dylai fod. Yn deg â phawb, heb fod angen "gwarchod" neb. Cystadlu o dan ffugenw ac yn y dirgel yw **holl gynsail sylfaenol y patrwm eisteddfodol hynafol**. Fel y nodwyd yn eich *Rheolau ac Amodau Cyffredinol* o dan ***"Cyfrinachedd: Rhaid i bob cyfansoddiad nodi rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r cystadleuydd yn unig gan ymdrechu i ddileu neu guddio unrhyw fanylion fyddai'n datgelu manylion y cystadleuydd***".

Mae'n amlwg felly bod y ddrama fuddugol **yn deilwng ar ei chryfder llenyddol a theatrig**. Nid lle na chyfrifoldeb unrhyw un arall [heblaw am y beirniad] oedd cwestiynu'r deunydd, cyn i'r dramodydd gael y cyfle i'w gosod yn nwylo'r actorion. Yn yr ystafell ymarfer mae cwestiynu'r dweud a'r safbwyntiau. Dyna'r patrwm ym Myd y Theatr. Allwch chi ddim disgwyl i bob beirniad llenyddol fod yn arbenigwr ar bob "gymuned" meidrol. Mae hynny yn amhosib. Ar bob cyfrif, dewiswch feirniaid o "gymunedau" gwahanol, ond petaech yn cynnwys degau o unigolion, go brin y byddai pawb yn cytuno a'i gilydd.

Rhaid ichi gyfaddef bod eich dewisiadau eleni wedi agor nyth cacwn peryglus a phryderus. **Ni ddylid datgelu pwy, nac o ba rywedd, hil, tras, lliw, crefydd nac etifeddiaeth yw'r enillydd, tan y Seremoni**. Os ydi'r gwaith llenyddol yn deilwng o ennill ym marn y beirniaid, yna dylid ei wobrwyo, waeth pwy yw'r enillydd. Nid cyfrifoldeb yr Eisteddfod nac unrhyw unigolyn creadigol arall yw cwestiynu'r gwaith buddugol, ar sail rhywedd, hil, lliw, crefydd nac etifeddiaeth yr awdur. Mae hynny yn groes i bob egwyddor sylfaenol ac yn gallu cael ei weld a'i ystyried, fel hiliaeth.

Annheg hefyd oedd disgwyl i'r Panel drafod yr hyn a ddigwyddodd yng nghyd-destun y gystadleuaeth benodol yma eleni, heb [yn ôl eu cyfaddefiadau] wybod yn iawn, [fel pawb arall], beth ddigwyddodd. Y neges barhaol a gafwyd oedd bod ***"angen gwarchod"*** - ond gwarchod pwy mewn gwirionedd? Beth am eich cyfrifoldeb i warchod ***yr holl gystadleuwyr eraill*** eleni, ac yn y dyfodol? Darpar gystadleuwyr sydd yn parhau i fod yn ansicr ac anwybodus ynghylch beth oedd y drosedd lenyddol a gyflawnwyd eleni, trosedd oedd yn cyfiawnhau dileu'r holl gystadleuaeth?

Rydym felly yn erfyn am DRAFODAETH agored gan aelodau o'r Cyngor a'r "Paneli" fu'n cynghori, am **eglurhad mwy cynhwysfawr**, am **gyhoeddi'r feirniadaeth WREIDDIOL YN LLAWN**, a'r **rhesymeg dros y penderfyniadau a wnaed, fel bo modd osgoi sefyllfa o'r fath rhag codi eto.**

Yn gywir,

gan y 236 ohonom a enwir isod,

(yn nhrefn yr Wyddor)

[redacted]

[redacted],
[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Annwyl Paul Griffiths

Diolch i'r rhai sydd wedi llofnodi'r llythyr agored at Gyngor a Bwrdd yr Eisteddfod.

Rydym yn gwerthfawrogi fod y penderfyniad i atal cystadleuaeth y Fedal Ddrama'n parhau yn bwnc llosg i nifer. Rydym wedi gwrando yn ofalus ar y feirniadaeth sydd wedi ei gylchredeg yn barod, ac yn derbyn na fu i'n datganiadau cynt leddfu gofidiau nifer o bobl am y penderfyniad.

Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Eisteddfod, a'r Bwrdd yn unig, sydd yn gyfrifol am y penderfyniad hwn. Ni ddylid felly beirniadu unrhyw wirfoddolwyr sy'n ymwneud â'r Eisteddfod nac ychwaith y staff.

Isod ceir ymateb i'r ddau fater a godwyd gennych chi.

**Y Symposiwm Rhithiol**

Cynhaliwyd y Symposiwm Rhithiol yn Nhachwedd eleni i drafod cynrychiolaeth yn y theatr yng Nghymru, ac i geisio edrych ymlaen at y dyfodol.

Mae'n ddrwg gennym os nad oeddech yn teimlo i chi gael mynegi eich barn yn y digwyddiad. Roedd cyfle i bobl ofyn cwestiynau drwy'r ffordd arferol o fewn Webinar drwy gydol y sesiwn, ac fe wnaethpwyd hyn yn glir fwy nag unwaith yn ystod y noson. Ni rwystrwyd unrhyw berson rhag gwneud sylwadau na chodi cwestiynau ar unrhyw bwynt. Roedd pob sylw a chwestiwn yn weledol i'r panel.

Mae'n werth hefyd nodi mai ychydig iawn o'r rheini sydd wedi llofnodi'r llythyr agored (llai na 8%) oedd wedi cofrestru ac felly wedi mynychu'r Symposiwm.

Roedd y Symposiwm yn gyfle i godi nifer o egwyddorion pwysig sydd hefyd wedi'u trafod gan ein panelau a'n pwyllgorau wrth ddiwygio ein prosesau, rheolau a'n hamodau o ran y cystadlaethau. Yr ydym yn credu y bydd yr egwyddorion hynny yn rhoi hyder i gystadleuwyr, beirniaid, a charedigion yr Eisteddfod a'r theatr yng Nghymru pan eu cynhwysir yn ein canllawiau a'n prosesau ar eu newydd wedd.

**Y modd yr ymatebodd yr Eisteddfod i'r hyn ddigwyddodd eleni**

Rydym yn ymddiheuro am unrhyw ofid a grewyd oherwydd ei bod yn ymddangos fod yr egwyddor o gystadlu o dan ffugenw, ac yn y dirgel wedi ei danseilio am resymau annilys, diangen, neu oherwydd sensoriaeth, gan yr Eisteddfod.

Nid felly yr oedd pethau. Daeth consyrn cwbl ddilys a di-gynsail i'r fei a oedd yn cyfiawnhau'r angen i ni wneud ymholiadau pellach. Yn dilyn hyn, penderfyniad y Bwrdd

oedd arfer eu hawl i atal y gystadleuaeth yn ei chyfanrwydd er gwarchod pawb ynghlwm â hi, ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gwlad.

Bu inni ymddwyn yn unol â rheolau ac amodau'r Eisteddfod wrth gymryd y cam hwn. Rheidrwydd oedd gweithredu fel y gwnaethom,  oherwydd ein dyletswyddau fel ymddiriedolwyr er lles yr elusen, ac uniondeb y broses gystadlu.

Fel y nodwyd ym mis Awst, ein dyletswydd yw sicrhau bod canllawiau priodol gennym i osgoi sefyllfaoedd o'r fath rhag codi yn y dyfodol.

Yn gywir

**Ashok Ahir**

**Llywydd y Llys a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli**

Eisteddfod Genedlaethol Cymru l National Eisteddfod of Wales

---------------------------------------------------------------------

[redacted]

Dear Llyr, Mark and (especially) Carolyn,

It's been almost exactly a year since The Conference of the Birds ended. Unfortunately I feel compelled to write to express my anger and concern.

This Welsh Labour government is quite quickly destroying the freelance not-for-profit creative workforce in Wales.

The void this is creating will render the propaganda stories that you (Carolyn) and leadership have put out in the last twenty four hours largely pointless.

How much of the additional funding that Welsh Government had found for the art organisations will be spent on holiday pay, pensions and sick leave?

How much will be spent on assessing funding applications written by people who have spent days and weeks of unpaid time developing and writing them - especially as the chances of success increasingly dwindle? This is not 'competition' - it's the systematic exploitation of hope.

All the while the freelance workforce that is the heartbeat of the largely urban 'bricks and mortar' institutions – which you so visibly celebrate – is rapidly draining away.

Mark might remember Rhiannon Gwyn, the young artist who was assisting me when we met in the Senedd a year ago.

Aged 27, Rhiannon is an extremely talented Welsh speaking practitioner. She already has work in the National Collection and this year had a solo exhibition at the National Slate Museum exploring through her work her ancestral connection with culture and landscape. Generations of her family worked in the quarries and her home was until a month ago in Sling, near Bethesda. Her achievements are astonishing given her age.

In October Rhiannon left for Australia having purchased a one-way ticket. She is utterly disillusioned with the way the arts are 'done' in Wales and feels that there is no future for her here.

Again: Rhiannon is 27 - and should have a future ahead of her as a shining light in the visual arts in Wales.

This loss is on you.

I find myself wondering if you grasp that freelance experimentation yields the innovation that brings tomorrow's financial success. The National Theatre's War Horse was, for example, founded on puppetry evolved by Handspring Theatre Company whose roots lie in South African experimental political theatre.

I understand that these are challenging times - but Brexit can no longer be used as an excuse. Cuts to arts funding in Wales exceed those in all of the other home nations.

Welsh Government's decisions are creating a wasteland which will impact on the wellbeing of future generations.

This will be your legacy.

Regards,

Sean Harris

Eitem 2.3

## YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

## RHAGFYR 2024

| YMWELIADAU MEWNOL | |
|---|---|
| 06 Rhagfyr | **Colocwiwm y DU – Canada**<br>Rhwng 6 a 8 Rhagfyr, cynhaliwyd Colocwiwm y DU – Canada yng Nghymru. Cymerodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ran mewn sesiwn banel, a siaradodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd mewn derbyniad yn y Colocwiwm yn amlygu'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ein fframwaith o ran galluogi deddfwriaeth, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y sector gofal iechyd. |
| **YMWELIADAU ALLANOL** | |
| Dim | Dim |

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Fforwm y Cadeiryddion
Drwy e-bost

7 Ionawr 2025

Annwyl Gadeiryddion,

**Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol**

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 2 Rhagfyr, dyma ysgrifennu i gadarnhau'r hyn a benderfynwyd ynghylch cynrychiolaeth y Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Senedd yn gallu enwebu dau Aelod ar gyfer pob grŵp. Cytunodd y Cadeiryddion:

- Dylai cynrychiolaeth y Senedd ar y ddau gorff barhau i fod yn gysylltiedig â chylchoedd gwaith pwyllgorau;
- Dylai'r Aelodau a enwebir fod yn gadeiryddion ar y pwyllgorau perthnasol ym mhob achos, ond gyda'r gallu parhaus i'r cadeiryddion enwebu eilyddion o'u pwyllgorau i fynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen;
- Bod parhad cynrychiolaeth yn bwysig, lle gellir cynnal hynny;
- Byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad (DCC), Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (NHAS), Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Pwyllgor yr Economi) a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor Diwylliant) yn cynrychioli'r Senedd ar y ddau gorff, gyda chadeiryddion y pwyllgorau hynny y tu allan i gyfarfod Fforwm y Cadeiryddion yn penderfynu ar ddyraniad y rolau.

Drwy drafodaeth y tu allan i'r Fforwm, cytunwyd ar yr enwebiadau a ganlyn:

- Y Fforwm Rhyngseneddol: Cadeiryddion Pwyllgorau DCC ac NHAS.
- Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Cadeiryddion Pwyllgor yr Economi a'r Pwyllgor Diwylliant.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

# Eitem 2.5

Bore da

We are pleased to release our Sector Snapshot Report, highlighting both the acute challenges and the remarkable resilience of the performing arts sector amidst ongoing financial pressures.

Creu Cymru represents Wales' vibrant performing arts sector. Our membership embodies virtually all of Wales' professionally run theatres, arts centres and producing companies, as well as a range of creative individuals.

We undertook this report to capture a snapshot of the experiences, challenges, and shared concerns of its members with regards to the current funding crisis and broader cost of living crisis.

It highlights the common trends and themes that are revealing themselves across the membership in relation to cultural workforce, building stock, artistic work and creative production and programming, and its civic role in serving the needs of audience and communities across Wales.

English - https://creucymru.com/news/creu-cymru-sector-snapshot-research

Cymraeg - https://creucymru.com/cy/news/creu-cymru-cipolwg-ar-y-sector

I welcome the chance to discuss the report with you and how we may find a way forward for the arts and culture sector in Wales.

Cofion cynnes,

Louise

Louise Miles-Payne

**Director / Cyfarwyddwr**

*Creu Cymru: Yn Gosod y Llwyfan i'r Celfyddydau Perfformio yng Nghymru / Creu Cymru: Setting the Stage for the Performing Arts in Wales*

Dysgwr

## CREU CYMRU | CIPOLWG AR Y SECTOR

*Casgliad o'r profiadau a'r heriau cyffredin sy'n wynebu aelodau Creu Cymru mewn cyfnod o galedi ariannol.*

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Creu Cymru yn cynrychioli sector celfyddydau perfformio bywiog Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys bron bob un o theatrau, canolfannau celfyddydol a chwmnïau cynhyrchu Cymru sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol, yn ogystal ag amrywiaeth eang o unigolion creadigol.

Cynhaliodd Creu Cymru yr adroddiad hwn er mwyn cael cipolwg ar y profiadau, yr heriau a'r pryderon a oedd yn gyffredin i'r aelodau o safbwynt yr argyfwng cyllido presennol a'r argyfwng costau byw ehangach.

Mae'n tynnu sylw at y tueddiadau a'r themâu cyffredin sy'n amlygu eu hunain ymhlith yr aelodau o ran gweithlu diwylliannol, stoc adeiladau, gwaith artistig a chynhyrchu a chreu rhaglenni creadigol, a'r rôl ddinesig yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd a chymunedau ledled Cymru.

**Y Prif Ganfyddiadau**

1. **Pwysau Ariannol ac Ecoleg y Sector:**
   - Mae'r sector wedi gweld gostyngiad o 25% yng nghyllid craidd y llywodraeth ers 2010, gyda Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud penderfyniadau heriol ynghylch dosbarthu arian. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at fwy o ddibyniaeth a phwysau sylweddol ar Gyllid y Loteri Genedlaethol a'r incwm posibl a ddarperir gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau.
   - Mae'r celfyddydau perfformio yn dibynnu ar ecoleg o rwydweithiau cymunedol, llawrydd, annibynnol a sefydliadol creadigol symbiotig. Mae llai o gyllid yn golygu llai o allbwn artistig, gwaith ac adnoddau, gan roi pwysau nad oes modd ei gynnal ar staff y sector, a chyfyngu ar gapasiti ar gyfer cefnogi prosiectau newydd, cydweithio cymunedol a chreadigol, a chyfleoedd cyflogaeth llawrydd drwyddi draw.
   - Mae'r celfyddydau perfformio yn llifo drwy rannau o'r gymdeithas ac yn ei chynnal mewn ffyrdd unigryw a hanfodol, gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chymunedol. Nid yn unig y mae toriadau ariannol yn effeithio ar y diwydiant

celfyddydau, maent hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar les a bywiogrwydd cymunedau a'r gymdeithas yng Nghymru.

2. **Newidiadau o ran Diwylliant a'r Gweithlu:**

    - Fe wnaeth y pandemig gyflymu newid systemig, gyda mwy o ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant ac arferion cyflogaeth teg yn y celfyddydau. Mae mwy a mwy o flaenoriaeth yn cael ei roi i gyflog teg a gwell cefnogaeth i staff a gweithwyr llawrydd creadigol yn y sector. Mae'r gweithlu'n croesawu'r newid tuag at drefniadau gwaith blaengar sy'n fwy hyblyg.
    - Ond rhaid cofio bod cyflawni'r ymrwymiadau hyn i newid systemig yn rhoi sefydliadau dan fwy a mwy o bwysau ariannol, ac yn golygu bod angen cyfyngu a chyfaddawdu pan mae'n dod i gynyrchiadau a rhaglenni, gweithgareddau a staffio.
    - Mae llai o staff mewn sefydliadau yn rhoi mwy a mwy o bwysau ar y gweithlu sy'n weddill, gan effeithio ar lefelau boddhad yn y gwaith a chynyddu ansicrwydd. Mae'r heriau o ran recriwtio a cholli sgiliau a thalent – yn enwedig swyddogaethau arbenigol – y mae'r ansefydlogrwydd hwn yn eu creu yn bygwth cynaliadwyedd hirdymor y sector.

3. **Stoc Adeiladau a Heriau Gweithredol:**

    - Mae Cymru'n symud yn gyflym tuag at argyfwng o safbwynt ei stoc adeiladau theatr a chelfyddydau, sy'n prysur heneiddio. Mae theatrau a chanolfannau celfyddydol yn wynebu costau gweithredol uwch o lawer y dyddiau hyn, yn enwedig o ran ynni, yswiriant a chynnal a chadw.
    - Mae adeiladau hŷn – llawer ohonynt yn arwyddocaol o ran diwylliant ac yn adeiladau rhestredig gradd 2 – yn cael eu hystyried yn niweidiol i'r amgylchedd o ran defnydd o ynni, ac mae eu premiymau yswiriant uchel yn draenio cyllidebau sydd eisoes yn gyfyngedig. Mae angen buddsoddi ym mhob un o'r rhain, a hynny ar frys, er mwyn iddynt fod yn ddiogel ac yn weithredol ar gyfer eu cymunedau a'u cynulleidfaoedd.
    - Mae datblygiadau mewn safonau hygyrchedd ac effeithlonrwydd carbon ac amgylcheddol yn golygu bod hyd yn oed adeiladau cymharol newydd angen llawer o fuddsoddiad erbyn hyn.

- Mae cyfyngiadau ariannol yn gwthio rhai lleoliadau i gyfyngu ar oriau agor, dibynnu ar wirfoddolwyr, neu ohirio gwaith cynnal a chadw, ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac ar brofiad y gynulleidfa.

4. **Teithio, Rhaglenni ac Ymgysylltu â'r Gynulleidfa:**

    - Mae effaith llai o gyllid ar yr ecoleg greadigol – y capasiti i gynhyrchu a chostau technegol uwch yn benodol – yn arwain at lai o gynnyrch a llai o gynyrchiadau cartref. Mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar gyfleoedd i dalent Cymru ac mae'n codi mwy a mwy o bryderon ynghylch hyfywedd teithio yng Nghymru.
    - Mae cynulleidfaoedd yn dal yn wyliadwrus, gan ffafrio cynyrchiadau cyfarwydd lle mae'r risg yn is. Mae'r argyfwng costau byw yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag amlder presenoldeb yn hytrach na bandiau prisio. Mae lleoliadau wedi addasu gyda modelau prisio hyblyg, ond mae'r ffaith bod sgiliau ac adnoddau yn diflannu o'r sector yn golygu ei bod yn anodd cael arbenigedd ym maes marchnata a datblygu cynulleidfaoedd.

5. **Effaith Gymdeithasol a Rôl Gymunedol:**

    - Mae'r celfyddydau'n rhan annatod o les cymunedol, ac maent yn gweithio'n galed ar y cyd â meysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gyflawni'r rôl ddinesig i wella bywyd pobl yn eu cymunedau.
    - Mae cyllidebau llai yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i wneud hyn. Mae'r gallu i ddarparu cysylltiadau ystyrlon â chymunedau wedi'i gyd-blethu â'r heriau sy'n wynebu addysg, iechyd a lles cymdeithasol i ddiwallu anghenion cynyddol cymunedau – yn benodol anghenion pobl ifanc sy'n wynebu effaith Covid.
    - Mae'r galw am weithgareddau celfyddydol a diwylliannol sy'n cael eu darparu yn y gymuned yn fwyfwy dwys, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, gyda chanolfannau a theatrau'n ysgwyddo effaith problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, tlodi a thlodi tanwydd. Mae'r angen yn mynd yn fwy tra bo'r gallu i ddarparu yn mynd yn llai.

6. **Eiriolaeth a Ffocws Strategol:**

    - Mae'r aelodau'n mynegi rhwystredigaeth ynghylch y diffyg eiriolaeth a data cydlynol i gyfleu gwerth ac anghenion y sector yn glir. Mae llawer o sefydliadau'n ei chael yn

anodd cofnodi a dangos eu heffaith oherwydd prinder adnoddau a chymorth systemig.

- Mae gwahaniaeth o ran capasiti a ffocws arweinyddiaeth ar draws y sector wrth i ni geisio cael llais cydgysylltiedig i ddangos effaith a gwerth, a syniad o sut i ddelio â'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol heriol.
- Mae angen dull gweithredu cydlynol a chyffredin rhwng pawb ar lefel sefydliadol a llywodraethol ac ar lawr gwlad er mwyn cael dealltwriaeth gadarn o ecoleg, mecanweithiau a gwerth y sector, a datblygu cynllun i'w ddiogelu rhag argyfwng sy'n parhau i waethygu.

# CYFLWYNIAD

Mae Creu Cymru yn hyrwyddo sector celfyddydau perfformio bywiog Cymru, gan gysylltu pobl, cynulleidfaoedd a chymunedau ar draws y wlad.  Mae ein haelodau'n cynnwys bron bob un o theatrau, canolfannau celfyddydol a chwmnïau cynhyrchu Cymru sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol, yn ogystal ag amrywiaeth eang o unigolion creadigol.

Mae'r sector celfyddydol a diwylliannol yn cyflogi 7000 o bobl ledled Cymru, gan wneud cyfraniad hanfodol i economi, iechyd a lles a phroffil ac enw da rhyngwladol ein gwlad. Fodd bynnag, ers 2010, mae cyllid y celfyddydau ledled y DU wedi gweld toriadau cyson a dramatig ar sawl lefel wahanol. Mae hyn yn golygu bod gwariant y llywodraeth ar ddiwylliant yn y DU, ar hyn o bryd, ymhlith yr isaf yn Ewrop[1].

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi cipolwg ar brofiadau ac argraffiadau aelodau Creu Cymru mewn perthynas â'r argyfwng cyllido presennol. Mae hefyd yn archwilio sut mae hyn yn cyd-fynd ag effaith yr argyfwng costau byw ar gynulleidfaoedd a chymunedau ledled Cymru.

Mewn sector sy'n fwyfwy ansicr ac ansefydlog, pwrpas Creu Cymru yw bod yn llais i'w aelodau, gan gyfleu profiadau a safbwyntiau sefydliadau'r celfyddydau perfformio ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a'i lunwyr polisi a phenderfyniadau allweddol.  Mae hyn yn teimlo'n bwysicach nawr nag erioed.  Ar ôl ymgynghori â'n haelodau, gellir cadarnhau bod y pwysau cyson y mae'r sector wedi'i wynebu dros y 14 mlynedd diwethaf wedi ei wanhau'n ddifrifol.  Mae'n hanfodol ein bod yn cyfleu difrifoldeb y problemau sy'n wynebu'r sector a'r risg o'r effaith bellgyrhaeddol ar fywyd diwylliannol Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Daw cynnwys yr adroddiad hwn o gyfweliadau manwl gyda'n haelodau i gyd.  Mae'r sampl yn cynrychioli safbwyntiau am hyd a lled ac allbwn sector celfyddydau perfformio Cymru.  Mae'n cwmpasu gwahanol ardaloedd daearyddol Cymru, ac yn cynnwys tai cynhyrchu a chanolfannau celfyddydol mawr, lleoliadau bach a chanolig a chwmnïau teithiol sy'n cynhyrchu'n annibynnol.  Mae'n cynnwys safbwyntiau lleoliadau sy'n eiddo i Brifysgolion ac i Awdurdodau Lleol ac ymddiriedolaethau theatrau annibynnol, ac mae'n cynnwys sefydliadau a ariennir gan brosiectau a rhai aml-flwyddyn Cyngor Celfyddydau Cymru.[2]

---

[1]Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwick, The State of the Arts, Campaign for the Arts a'r Ganolfan Astudiaethau Polisi Diwylliannol a'r Cyfryngau, Prifysgol Warwick, Gorffennaf 2024
[2] Atodiad 1

Roedd gan bobl lawer iawn i'w ddweud, ac mae'r sgyrsiau wedi bod yn onest, yn gadarn ac yn fanwl. Nodwyd bod llawer o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn gyffredin ar draws y sampl gyfan, waeth beth oedd eu maint, eu lleoliad na'u cyd-destun demograffig.

Wrth eu dwyn at ei gilydd, mae themâu allweddol yr adroddiad yn datgelu ystod gymhleth o ffactorau croestoriadol a mwyfwy paradocsaidd sy'n effeithio ar y sector celfyddydau perfformio yng Nghymru. Mae angen deall y ffactorau hyn yn llawn er mwyn eiriol yn effeithiol dros y sector a'r buddsoddiad parhaus y mae taer ei angen arno.

## THEATR FEL ECOLEG

Un o brif themâu'r adroddiad hwn yw apêl am fwy o ddealltwriaeth o'r ecoleg sydd yn y celfyddydau perfformio yng Nghymru. Mae'r sectorau sy'n bodoli yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol wedi'u cyd-blethu'n ddwfn – gyda'i gilydd a gyda'r gymdeithas ehangach. Oherwydd hyn, gall fod yn anodd mesur a phennu effaith, wedi'r cyfan, maent yn ategu ac yn llifo drwy rannau o gymdeithas mewn ffyrdd unigryw ac annatod, gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymunedol a chymdeithasol a lles cymunedol.

Mae'r cydgysylltiad hwn hefyd yn un o'r ffactorau anoddaf i ddelio ag ef wrth gyfleu natur a dyfnder yr argyfwng a wynebir gan y celfyddydau a'r diwylliant. Roedd pob sgwrs yn sôn am y symbiosis sy'n bodoli ar draws y sector, a sut y gall tarfu ar hynny effeithio ar y system gyfan.

Mae llawer o'r aelodau'n teimlo bod y sector wedi methu llunio naratif effeithiol ynghylch natur gymhleth yr ecoleg hon, ac nad yw'r sector cyhoeddus na'r llywodraeth yn ei deall yn iawn. Oherwydd hyn, nid yw'r celfyddydau perfformio a'r rôl maent yn ei chwarae yn iechyd y gymdeithas yn cael eu gwerthfawrogi'n briodol ar y lefel uchaf, ac amlygir hyn gan y toriadau mewn buddsoddiad a welwyd ers 2010. Nod yr adroddiad hwn yw cyfleu agweddau unigryw yr ecoleg hon fel apêl am archwiliad dyfnach i'r ffyrdd y gellir ei diogelu, ei meithrin neu ei gwarchod er mwyn osgoi erydiad pellach.

## CYLLID

Er bod 23 o sefydliadau ychwanegol wedi cael cyllid aml-flwyddyn yn sgil Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2023, gorfodwyd CCC i wneud nifer o benderfyniadau heriol ynghylch

dosbarthu cyllid ar draws ei bortffolio.  Ac eithrio dau o'r sampl a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd pob un naill ai wedi colli cyllid yn llwyr, yn cael llai o gyllid neu wedi gweld y cyllid yn aros yn ei unfan.

Nid yw'n anodd deall cyd-destun y penderfyniadau hyn. Ers 2010, bu gostyngiad o 25% yng nghyllid craidd Cyngor Celfyddydau Cymru gan y Llywodraeth, a gostyngiad o 40% yng nghyllid refeniw llywodraeth leol ar gyfer diwylliant a gwasanaethau cysylltiedig.[3]  Mae'n gyfnod anodd i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.  Mae'r dirywiad hwn mewn cyllid wedi cael ei waethygu gan y cynnwrf cymdeithasol a sectoraidd a ddaeth yn sgil pandemig 2020, a roddodd ergyd farwol bron i'r diwydiant. Yn wir, mae'n dal i weithio'n galed i ddod at ei hun.

Roedd yr holl aelodau'n cyfeirio at hafaliad cylchol syml a oedd yn ganolog i'w her o ddydd i ddydd.  Mae llai o gysylltiadau cyllid yn cyd-fynd yn uniongyrchol â llai o weithgareddau. Mae llai o weithgareddau a rhaglenni artistig yn cyd-fynd yn uniongyrchol â llai o gyfleoedd cyflogaeth. Mae llai o gyflogaeth yn arwain at lai o adnoddau a chapasiti, gan adael staff craidd a'r gweithlu heb ddigon o adnoddau ac o dan ormod o bwysau.

Mae'r gostyngiad mewn cyllid portffolio aml-flwyddyn wedi rhoi mwy o bwysau a galw ar Raglen Ariannu Celfyddydau (Creu) y Loteri Genedlaethol.  I lawer o sefydliadau neu unigolion creadigol sy'n cael eu hariannu gan brosiectau, mae cyllid Creu yn aml yn dibynnu ar gymorth ymarferol neu gymorth i gyd-gynhyrchu gan ganolfannau mwy a sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan bortffolio i'w helpu i gynhyrchu gwaith.  Yn sgil y wasgfa ar gyllid, mae llawer o'r sefydliadau hynny'n rhoi llai o gefnogaeth oherwydd ansicrwydd a chapasiti sydd dan bwysau. Mynegodd llawer bryderon am yr effaith hirdymor y bydd hyn yn ei chael ar greu gwaith a'r cynnyrch fydd ar gael yn y dyfodol.

Mae llai o fuddsoddiad gan y llywodraeth wedi rhoi rhagor o bwysau ar allu sefydliadau i godi arian a datblygu. Yn gyffredinol, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yw'r prif ffynonellau incwm amgen ar gyfer cyrff celfyddydol a diwylliannol.  Cyfeiriodd yr holl aelodau at ba mor anodd yw sicrhau incwm ychwanegol, gan nodi bod llwybrau ymgeisio'n cau yn gynnar oherwydd y galw llethol.  Ar ben hyn, nid yw'r cyfryw ffynonellau'n tueddu i ariannu costau gweithredol neu gostau craidd – gan ganolbwyntio yn hytrach ar gyllid ar gyfer gwaith ymgysylltu cymunedol a chymdeithasol. Mae hynny'n golygu, er ei fod yn hanfodol ar gyfer y dibenion cymdeithasol dinesig sy'n rhan o waith sefydliadau, nid yw'r cyllid hwn yn gwneud dim i leihau pwysau o ran capasiti ac adnoddau.

---

[3]Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwick, The State of the Arts, Campaign for the Arts a'r Ganolfan Astudiaethau Polisi Diwylliannol a'r Cyfryngau, Prifysgol Warwick, Gorffennaf 2024

## NEWID MEWN DIWYLLIANT

Yn ystod pandemig Covid-19, gwelwyd newid enfawr yn neialog diwylliannol y sector, wrth i bwyslais gael ei roi ar drafodaethau a galw am newid systemig yng nghelfyddydau a diwylliant y DU. Roedd y cysylltiad agos rhwng y celfyddydau, diwylliant a chymdeithas yn ei gwneud yn amhosibl peidio ag wynebu'r anghyfiawnder systemig yn systemau a strwythurau ein sector.

Roedd yr uchelgais a'r ymrwymiad cynyddol hwn i newid, i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth, ac i wella tegwch ac amrywiaeth yn y sector yn amlwg, ac yn parhau i fod wrth galon cyfeiriad strategol y rhai y buom yn siarad â nhw. Ar ben hynny, cydnabuwyd yn unfrydol fod y celfyddydau wedi gofyn gormod o lawer o'u gweithwyr am ddim digon, a hynny am ormod o amser. Ac roedd cysylltiad rhwng hyn a diwylliant sector a oedd wedi eithrio grwpiau ymylol ac economaidd-gymdeithasol is o'r gweithlu.

Roedd yr holl aelodau'n teimlo bod lefelau cyflog uwch yn rhan sylfaenol o'r dasg o gyflawni'r agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gadarnhau bod angen blaenoriaethu cynnydd chwyddiant neu gynnydd cyfatebol mewn costau byw ar gyfer eu gweithluoedd. Cydnabuwyd bod cynnydd a chefnogaeth y gymuned lawrydd yn elfen hanfodol o iechyd ecoleg y sector yn hyn o beth. Roedd theatrau a chwmnïau cynhyrchu yn nodi bod dyfodiad cynghreiriau llawrydd yn ystod ac ar ôl Covid wedi arwain at fwy o bwyslais ar gostio ar sail gwerth gan weithwyr llawrydd creadigol (h.y. dylunio goleuadau, cynhyrchu neu sain). Roeddent hefyd yn cydnabod, yn hanesyddol, fod diffyg canllawiau ffurfiol gan y diwydiant ynghylch cyfraddau comisiynu ar gyfer y math hwn o waith wedi arwain at arfer meincnodi cymheiriaid anffurfiol a oedd wedi cadw ffioedd yn artiffisial o isel ar draws y sector. Mae newid i fynd i'r afael â hyn; roedd yr holl aelodau'n gadarn o blaid yr angen i'r gweithlu llawrydd gael gwell cyflog, gyda'r rhan fwyaf o'r aelodau (ar wahân i awdurdodau lleol neu brifysgolion) yn talu cyfraddau sylfaenol Equity / ITC neu gyfraddau uwch.

Yn ddiweddar, roedd Theatr Clwyd wedi cynnal ymarfer mapio ar draws eu gweithlu llawrydd. Buont yn tracio gwahanol ddisgyblaethau ar draws mathau a graddfeydd cynhyrchu, gan gyfrifo'r amser gwirioneddol a dreuliwyd yn gwneud gweithgarwch yn erbyn swyddogaethau aelodau craidd y cwmni (staff). Roedd hyn wedi arwain at gynnydd o 10% mewn cyfraddau llawrydd ar draws cynyrchiadau. Er bod hyn yn newid cadarnhaol i Theatr Clwyd a'i pherthynas â gweithwyr llawrydd, realiti hyn yng nghyd-destun y sector ehangach yw na ellir cyfateb y cynnydd hwn. Mae'n cyfleu'r angen am fwy o ffocws yn y maes hwn, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y risg o

anghysondebau o ran cyfraddau cyflog ar draws y sector, gan gymhlethu partneriaethau cyd-gynhyrchu y dibynnir arnynt i greu gwaith, ac effeithio ar ddarpariaeth mewn rhai meysydd o bosibl.

Mae'n amlwg, yng nghyd-destun llai o gyllid, fod yr ymgyrch i wella cyflogau ac amodau gwaith ar draws y sector wedi arwain at ailgyfeirio cyllidebau oddi wrth raglenni a gweithgareddau artistig sy'n wynebu cynulleidfaoedd.  Os nad oedd gan sefydliad y gallu i ysgwyddo'r costau, credwyd yn gryf bod hyn yn arwain yn uniongyrchol at golli staff, neu anawsterau wrth gyflogi gweithwyr llawrydd ar lefel arbenigedd ofynnol.

Rydym yn weithlu artistig a chreadigol, sy'n cael ein gyrru gan angerdd, syniadau a chymhelliant i greu. Mae angen seilwaith ar artistiaid er mwyn gallu creu ar lefel broffesiynol ac er mwyn i'w gwaith ymgysylltu ac ennyn diddordeb ar lefel ddinesig.  Mae Rheolaeth yn y Celfyddydau yn rhoi'r strwythur ar gyfer hyn, ac mae'r naill safbwynt a'r llall yn cael eu gyrru gan ymrwymiad i beidio â chyfaddawdu na lleihau'r gwaith, nac effaith y profiad ar gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr.  O ganlyniad, mae ymddygiad diwylliannol wedi datblygu yn y celfyddydau sy'n dibynnu ar barodrwydd gweithwyr i wneud rhywbeth o ddim byd, gan ofyn am lawer o hunan aberth ac aberth ariannol i wneud hynny. Mae hyn wedi eithrio'r gweithwyr a'r bobl greadigol hynny nad yw'r systemau a'r strwythurau presennol rydym yn gweithio ynddynt yn gallu diwallu eu hanghenion (ariannol, ffisegol, economaidd-gymdeithasol), ac yn parhau i'w heithrio. Y farn gyffredin oedd bod y diwylliant hwn o aberth wedi arwain at broblem barhaus nad oedd yn mynd i unman, gan guddio craciau difrifol yn sylfeini'r sector, sy'n gwyro dan bwysau ers tro byd.

Thema gyffredin a oedd yn codi mewn perthynas â chwestiynau ynghylch staff a'r gweithlu oedd yr angen i fynd i'r afael â'r hyn a ystyrir yn ymddygiadau diwylliannol dwfn.  Roedd blaenoriaethu cydraddoldeb a lles staff, ac ymgorffori diwylliannau gofalu cefnogol, bob amser yn uwch ar agendâu strategol.  Mae dogfennau mynediad penodol gan staff, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl a rolau hwyluswyr lles yn fwy cyffredin ar draws yr aelodaeth.  Mae hyn wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth ymysg arweinwyr o'r lefelau angen yn eu gweithlu. Mae'n amlygu ehangder y sefyllfaoedd cymhleth y mae unigolion yn eu rheoli o ganlyniad i'r amgylchedd economaidd-gymdeithasol heriol sydd ohoni.

Nodwyd bod y genhedlaeth newydd o weithlu diwylliannol sy'n dod i'r gweithle yn cyflymu'r newid diwylliannol hwn.  Cyfeiriodd pobl at wahaniaethau mewn disgwyliadau o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a'r hyn a ystyrir yn amodau ac arferion gweithio rhesymol ym marn pobl iau.  Mae

hyn, ochr yn ochr â chamau breision ymlaen o ran amrywiaeth a chynhwysiant, wedi cyfrannu at elfen sylfaenol o agenda lles y sector, gyda chefnogaeth unfrydol pawb y siaradwyd â nhw.

Fodd bynnag, mynegwyd y gefnogaeth hon gyda chafeat am y paradocs o weithredu'r newidiadau diwylliannol hyn gan wynebu effaith gostyngiad sylweddol mewn cyllid ar yr un pryd. Y farn gyffredin oedd bod angen i'r sector, er mwyn bod yn fwy hygyrch, cynhwysol a theg, ystyried sut i roi llawer o amser ychwanegol i'w brosesau; neu wneud llai o lawer; neu gyflogi mwy o bobl. Ni ystyrir bod hyn yn bosibl yn y cyd-destun presennol a'r gred gyffredinol yw nad yw cyllidwyr yn llwyr gydnabod y cyfyng-gyngor hwn.

Y neges gyffredinol yw bod y sector wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol, hyd yn oed yn ôl ei safonau ei hun. Ac mewn cyfnod mor ansicr, mae angen arweinyddiaeth gref i dorri'r cylch. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld ym mhenderfyniad Canolfan Mileniwm Cymru i roi'r gorau i'w holl weithgarwch rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Yn yr un modd, gwnaeth Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, y penderfyniad i gau dros Wyliau Banc prysur mis Mai oherwydd prinder staff, yn hytrach na gosod amodau gwaith anymarferol ar y staff a oedd ar ôl.

Mae'r penderfyniadau hyn yn anodd ac maent yn cael effaith fawr ar forâl staff ac ar ddarpariaeth a phrofiad y gynulleidfa. Fodd bynnag, maent yn angenrheidiol o ran iechyd ariannol a sefydliadol. Roedd yr aelodau'n cydnabod yn gyffredinol nad oedd pob sefydliad wedi'i strwythuro i wneud y mathau hyn o benderfyniadau nac yn gallu gwneud penderfyniadau o'r fath.

## SWYDDI A CHYFLOGAETH

Pan ofynnwyd am effaith y sefyllfa bresennol ar staff a'r gweithlu, y prif bryder oedd gostyngiad yn nifer y swyddi a'r cyfleoedd gwaith ar draws y sector, a'r effeithiau cysylltiedig.

Er nad yw hyn wedi arwain at golli swyddi'n uniongyrchol – nid yw diswyddiadau wedi bod yn gyffredin ar draws y sector – mae'r realiti'n llai amlwg ond yr un mor frawychus. Soniodd pob sefydliad y siaradwyd â nhw am adolygu cynlluniau a gweithgarwch strategol, ac roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag ailstrwythuro neu ail-ddychmygu timau. Yn fwyaf cyffredin, mae hyn yn golygu peidio â chyflogi aelod newydd o staff pan fydd rhywun yn gadael, a bod cyfrifoldebau'r unigolyn hwnnw'n cael eu hamsugno gan swyddi presennol.

Mae enghreifftiau eraill o ailstrwythuro neu ail-ddychmygu yn cynnwys newid cynyddol i gontractau tymor byr neu hunangyflogedig o fewn timau sefydliadol, gyda llawer o staff craidd gydag ail swydd neu fwy nag un swydd arall. Er bod contractau tymor byr, contractau hyblyg neu gontractau dim oriau wastad wedi chwarae eu rhan yn y gweithlu diwylliannol (sef perfformwyr a gweithwyr creadigol cefn llwyfan), nodwyd eu bod yn ymestyn i waith gweinyddu a rheoli'r celfyddydau, a bod hyn yn cael effaith ansefydlog ar y seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi gwaith cynhyrchu creadigol y sector. Cydnabuwyd bod cyflwyno patrymau gweithio mwy hyblyg ac addasol yn aml yn enghraifft gadarnhaol o strwythurau gofal a lles staff. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y newid hwn yn arwydd o ymgais i gymryd arian yn ôl, gyda staff hefyd yn cael eu hannog i gymryd absenoldeb di-dâl neu i symud yn wirfoddol i oriau rhan amser.

Roedd lleoliadau'n aml yn sôn am gwtogi ar staff blaen tŷ, gyda llawer yn lleihau oriau agor er mwyn lleihau costau staffio. Mae patrwm yn dod i'r amlwg lle mae lleoliadau'n symud y cydbwysedd i fod yn ddibynnol ar staff achlysurol neu, fwy a mwy, gwirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn tueddu i fod yn bobl sydd wedi ymddeol, yn hytrach na phobl ifanc ar ddechrau eu bywyd gwaith. Mae hyn yn nodedig mewn perthynas â'r pwynt ehangach ynghylch ecoleg y sector. Yn ôl Theatr y Sherman, er y byddai'r sefydliad yn hanesyddol wedi gweld llwybr clir o'r timau blaen tŷ / swyddfa docynnau i dimau rheoli a gweinyddu'r celfyddydau, nid yw hyn yn wir erbyn hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â phryderon ehangach a fynegwyd ynghylch sefydlu gweithlu'r dyfodol – y genhedlaeth nesaf – yn arferion diwylliannol bob dydd theatrau sy'n gweithio.

Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ddiwylliant sefydliadau. Mae timau staff craidd yn mynd yn deneuach ac yn llai cadarn, gyda'r staff a'r arweinwyr sy'n weddill yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r pwysau, gyda mwy o lwyth gwaith. Mae hyn yn teimlo'n anstrategol ac yn anghynaliadwy, ac nid yw'n modelu'r newid systemig sydd ei angen ar draws y sector i wreiddio arferion mwy cynhwysol ac amgylcheddau gwaith gwell.

## RECRIWTIO, SGILIAU A CHOLLI TALENT

Cydnabyddir yn gyffredinol fod bwlch sgiliau cynyddol yn dod i'r amlwg ar draws y sector. Mae sector celfyddydau perfformio Cymru yn cwmpasu ardaloedd trefol, gwledig ac ôl-ddiwydiannol. O ganlyniad, mae llai o symud ar draws y sector, ac mae'n fwy anodd symud ymlaen mewn gyrfa, gyda'r rheini mewn swyddogaethau strategol sy'n talu'n well yn aros am fwy o amser. Mae risg amlwg yn perthyn i hyn o ran cynnal sgiliau, egni a deinameg y gweithluoedd.

Mynegodd llawer o aelodau bryderon am y gwahaniaeth mewn arweinyddiaeth ar draws y sector. Mae'n anodd sicrhau profiad a thalent mewn arweinyddiaeth weithredol a chreadigol. Roedd arbenigeddau a oedd yn gysylltiedig â chynulleidfaoedd, rheoli pobl a'r newid sefydliadol sydd ei angen i ymdrin â'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol heriol hwn – yn enwedig y tu allan i'r dinas-ranbarthau – yn cael eu hystyried yn gynyddol denau ar lawr gwlad. Er bod y sefydliadau sydd â mwy o adnoddau yn cydnabod eu rôl yn modelu newid ac yn gwneud penderfyniadau mwy hyblyg a dewr, cydnabuwyd hefyd nad oes gan lawer o sefydliadau llai bob amser y strwythurau arweinyddiaeth uwch i wneud yr un fath.

Nododd Theatr Clwyd fod yr egni o gwmpas ei ddatblygiad cyfalaf mawr, ynghyd â'r ffaith ei fod yn agos at ddinasoedd allweddol dros y ffin yng Ngogledd Lloegr, yn gwneud adleoli neu gymudo'n fwy ymarferol – ond mae'n ymddangos bod hynny'n eithriad. Nododd pob sefydliad y tu allan i'r dinas-ranbarthau ei bod yn anodd sicrhau talent mewn timau craidd.

Yn ogystal â hyn, daeth safbwynt cyffredin i'r amlwg ynghylch haen o reolwyr 'wedi'u gwasgu yn y canol' mewn sefydliadau, sy'n gysylltiedig â phatrwm ehangach o swyddogaethau sydd i bob golwg yn ymgorffori sgiliau trosglwyddadwy allweddol (yn enwedig datblygu cynulleidfaoedd a marchnata, cynhyrchu a chynhyrchu technegol) yn gadael y sector am gyfleoedd yn rhywle arall.

Nododd cyfarwyddwyr artistig ddiffyg buddsoddiad hanesyddol yn y sector yn rôl y cynhyrchydd ac mewn strategaeth gynhyrchu gydgysylltiedig, gan adael Cymru gyda bwlch sylweddol mewn arbenigedd yn hyn o beth. Nododd cyfarwyddwyr a rheolwyr gweithredol y diffyg arbenigedd ym maes cyfathrebu a chynulleidfaoedd, gyda llawer o swyddogaethau marchnata wedi diflannu o dimau staff canolfannau yn gyfan gwbl, ac wedi dod yn rhan o swyddogaethau rheoli cyffredinol a gweithwyr y swyddfa docynnau.

O ran y gostyngiad mewn sgiliau cynhyrchu a thechnegol, daeth hyn i'r amlwg yn ystod y pandemig. Bryd hynny, gwelwyd cynnydd enfawr mewn cynhyrchu ar gyfer ffilm a'r cyfryngau, ond diflannodd swyddogaethau technegol wrth i leoliadau gau ac wrth i'r celfyddydau perfformio byw ddod i stop. Er bod rhai o'r gweithwyr hynny wedi dychwelyd, y farn yw bod y sector yn dal yn methu cystadlu â'r cyfraddau cyflog i adfer y gronfa argaeledd sydd ei hangen arno. Mae bylchau mawr mewn sgiliau a phrofiad yn y sector o hyd, gyda charfan o staff iau yn ymddangos heb ddigon o bobl i'w datblygu.

Roedd yr arbenigwyr medrus hynny sy'n dal i weithio yn y sector yn cael eu hystyried yn anfforddiadwy i gwmnïau neu ganolfannau cynhyrchu llai.

Yn ôl llawer, roedd datblygu sgiliau yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd wedi disgyn rhwng y craciau rhwng CCC a Cymru Greadigol. O’r cwmnïau cynhyrchu y siaradwyd â nhw, roedd llawer yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis ond cyflogi graddedigion dibrofiad i wneud swyddi dylunio neu dechnegol anodd, gan ysgwyddo cyfrifoldebau mentora eu hunain heb y capasiti priodol na’r setiau sgiliau perthnasol.

Ystyriwyd bod sicrhau staff cefn llwyfan sy’n siarad Cymraeg, yn enwedig rheolwyr llwyfan a staff cynhyrchu, yn arbennig o anodd, yn fwy felly oherwydd bod ystafelloedd ymarfer yn troi i’r Saesneg, gan weithio yn erbyn pwrpas craidd sefydliadau celfyddydau perfformio Cymraeg. Ar hyn o bryd mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gweithio gydag interniaid cefn llwyfan a ariennir gan un o raglenni penodol Llywodraeth Cymru, sy’n cysylltu’r Gymraeg â’r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae ble i sicrhau cefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau ehangach yn y diwydiant y tu allan i ffiniau’r ddarpariaeth Gymraeg yn broblematig ac yn aneglur.

Nododd rhai cwmnïau cynhyrchu eu bod wedi gweld newid yn nisgwyliadau graddedigion creadigol sy’n ymuno â’r gweithlu o hyfforddiant ac addysg uwch. Mae cyflwyno nifer o gyrsiau ôl-raddedig yn golygu bod myfyrwyr yn aros yn y brifysgol yn hirach, gan adael gyda mwy o ddyledion, ochr yn ochr â disgwyliadau afrealistig ynghylch y gwaith sydd ar gael fel swydd gyntaf.

Fe wnaeth Prosiect Cysylltu a Ffynnu diweddar Cwmni Theatr Taking Flight – Breaking the Box – ddarparu amrywiaeth o leoliadau datblygu a phrofiad mewn disgyblaethau cefn llwyfan i bobl fyddar, anabl a niwrowahanol. Nododd y Cwmni eu bod, yn ystod y prosiect, wedi gweld newid mawr ac amlwg yn iechyd meddwl a gwytnwch gweithwyr creadigol ar ddechrau eu gyrfa, a oedd wedi gwaethygu oherwydd effaith a methiannau systemau cysylltiedig Covid, a’r heriau economaidd-gymdeithasol parhaus.

Mae pryder ynghylch effaith y duedd hon ar lefelau sgiliau ac erydu hirdymor setiau sgiliau arbenigol a disgyblaethau yng Nghymru.

Soniodd llawer o’r rhai y buom yn siarad â nhw fod cysylltiad annatod rhwng morâl a gwerth. Nid oes amheuaeth nad yw’r ansicrwydd a’r ansefydlogrwydd y mae’r sector yn eu profi yn cael effaith niweidiol ar forâl ar draws y gweithlu.

Y brif dybiaeth yw bod dibrisio'r celfyddydau a diwylliant yn gyson drwy doriadau mewn cyllid cyhoeddus, a diffyg eiriolaeth amlwg ar lefel gyhoeddus a gwleidyddol, yn arwain at lai o foddhad mewn swyddi a mwy o flinder a lludded. Roedd hyn yn wahanol mewn ambell achos, lle'r oedd niferoedd y cynulleidfaoedd wedi parhau i fod yn uchel, a chefnogaeth y cyhoedd a chydnabyddiaeth o werth yn cael ei gyfleu drwy bresenoldeb cynulleidfaoedd. Mae'n werth nodi bod y sefydliadau hyn yn tueddu i fod yn rhai â lefelau uwch o gymorthdaliadau cyhoeddus, i alluogi buddsoddiad mewn arbenigedd ym maes ymgysylltu â'r gynulleidfa, cyfathrebu a marchnata.

Y pryder ehangach yw nad yw'r sector celfyddydau perfformio yng Nghymru yn gallu denu'r lefelau sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen i oroesi'r argyfwng presennol. Mae diffyg cyflogau cystadleuol a sicrwydd swyddi yn golygu bod ennyn diddordeb cronfa ehangach o arbenigwyr – celfyddydol a diwylliannol yn y DU neu'n rhyngwladol – neu annog pobl i groesi ffiniau sectorau, yn dod yn fwyfwy anodd.

## STOC ADEILADAU

Mae gan Gymru rwydwaith o ganolfannau celfyddydol a diwylliannol annibynnol – sy'n eiddo i Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion – a'r rheini'n gwasanaethu demograffeg eang o gymunedau ar draws y wlad. Mae rhai yn gwasanaethu poblogaethau trefol, rhai'n gwasanaethu cymunedau dwys eu poblogaeth, ond lle mae'r cymunedau'n ynysig neu ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac eraill yn denu cynulleidfaoedd gwledig gwahanol o radiws daearyddol gwledig eang.

Nid oes yr un lleoliad yr un fath, ac mewn llawer o achosion, maent yn symbiotig gyda'r gymuned leol y maent yn ei gwasanaethu. Mae llawer yn fannau hanesyddol wedi cael eu hadeiladu'n benodol ar gyfer anghenion diwylliannol hen gymunedau diwydiannol Cymru, lle mae gweithgarwch cymunedol, ochr yn ochr â gwaith artistig, yn dal i ddigwydd. Mae llawer o'r rhain yn adeiladau rhestredig gradd 2 y mae angen eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel i'r cyhoedd.

Roedd pawb y siaradwyd â nhw – o aelodau'r canolfannau a'r cwmnïau cynhyrchu i artistiaid unigol, cynhyrchwyr ac unigolion creadigol – yn mynegi pryder am hyn. Roedd yr alwad am gynllun strategol hirdymor ar gyfer buddsoddi yn stoc adeiladau theatrau Cymru fel rhan allweddol o'r ecoleg gelfyddydol a diwylliannol ehangach yn unfrydol ac yn frys.

Ar lefel sylfaenol, mae adeiladau'n ddrud i'w rhedeg. I'r rhan fwyaf o reolwyr theatrau, mae costau rhedeg a gofynion cynnal a chadw yn hollbwysig er mwyn bodoli o ddydd i ddydd. Siaradodd yr aelodau'n gyffredinol am effaith costau ynni sy'n aruthrol o uchel, yn ogystal â chynnydd anhygoel mewn premiymau yswiriant, sy'n cynyddu'r baich ariannol sy'n rhan o'u gwaith.

Mae blynyddoedd o ddiffyg buddsoddiad yn yr ystâd gyhoeddus yn golygu bod adeiladau celfyddydol a diwylliannol Cymru, yn yr un modd â'n hysbytai a'n hysgolion, yn cyrraedd eu pwynt tyngedfennol eu hunain. Mae rheolwyr canolfannau'n gwneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol bob dydd, gan flaenoriaethu iechyd a diogelwch yn hytrach na phrofiad artistig neu brofiad cwsmeriaid.

Mae llawer o'r adeiladau hyn yn niweidiol i'r amgylchedd o ran defnydd o ynni, ac mae eu premiymau yswiriant uchel yn draenio cyllidebau sydd eisoes yn gyfyngedig. Mae datblygiadau mewn safonau hygyrchedd ac effeithlonrwydd carbon ac amgylcheddol yn golygu bod hyd yn oed adeiladau cymharol newydd angen llawer o fuddsoddiad erbyn hyn.

Bydd gwaith ailadeiladu cyfalaf Theatr Clwyd, sydd i fod i gael ei gwblhau yn 2025, yn ei gwneud yn un o'r theatrau mwyaf ecogyfeillgar yn Ewrop pan fydd yn agor ei drysau. Fodd bynnag, mae'r lleoliad hwn nad yw'n rhedeg ar danwydd ffosil yn dod â chynnydd sylweddol mewn costau yn ei sgil, gyda chynnydd wedi'i gyllidebu o bron i hanner miliwn o bunnoedd mewn costau ynni.

Hefyd, ar ôl ugain mlynedd yn unig, mae gan Ganolfan Mileniwm Cymru gynllun cynnal a chadw adeiladau cynhwysfawr sy'n rhan o'i chostau gweithredu craidd. Fodd bynnag, mae ei thîm yn awr yn edrych ar adnewyddu offer drud sy'n syml iawn wedi cyrraedd diwedd ei oes, a bydd hyn yn costio miloedd. Dyma un o'r canolfannau mwyaf llwyddiannus yn fasnachol yng Nghymru, gyda photensial sylweddol ar gyfer ennill incwm a buddsoddi. Ond nid yw'r prosiectau hyn yn gynigion cyllido ychwanegol hawdd na deniadol.

I lawer o ganolfannau celfyddydol a diwylliannol llai Cymru, mae blynyddoedd o gyllidebau cyfyng yn golygu bod llawer yn methu gweithredu mewn ffordd sy'n cynhyrchu digon o arian dros ben i'w fuddsoddi'n ôl yn yr adeiladau. Heb rywfaint o ffocws strategol, bydd y mater hwn yn mynd yn fwy ac yn fwy difrifol, a galwodd llawer o aelodau am arweiniad a chefnogaeth gan lywodraethau lleol a chenedlaethol ar sut i gynllunio a rheoli'r mater hwn sydd ar y gorwel.

Ffactor allweddol arall yw'r berthynas rhwng y celfyddydau ac Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion. Mae gan bob un ei argyfwng ei hun, ac mae ansicrwydd y perthnasoedd hyn wedi dod yn fwyfwy amlwg wrth i'r sefyllfa waethygu drwyddi draw.

Wrth i gyllid y llywodraeth ganolog gael ei dynnu'n ôl ac wrth i arian gael ei ailgyfeirio i ofal cymdeithasol a'r anghenion mawr sy'n gysylltiedig â'r sector hwnnw, mae llawer o awdurdodau lleol wedi gorfod edrych ar eu darpariaeth gelfyddydol a diwylliannol yn y tymor byr.  Mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer y celfyddydau wedi gostwng 40% yng Nghymru ers 2010[4]. Roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw o ganolfannau sy'n eiddo i Brifysgol neu Awdurdod Lleol yn pryderu bod y stasis mewn gwariant celfyddydol a diwylliannol gan y llywodraeth wedi creu golau gwyrdd ar gyfer tynnu buddsoddiad o'r sefydliadau hynny, yn hytrach na chadarnhau'r gefnogaeth.

Er gwaethaf hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, mae Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion yn dal i dalu'r biliau ynni a chynnal a chadw fel rhan o'u portffolios adeiladau.  Ond mae mwy a mwy o leoliadau'n wynebu achosion o ail-godi tâl, neu'n gweld nad yw gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn digwydd, gan waethygu'r problemau sydd ar y gorwel o ran anghenion buddsoddi cyfalaf eang.

Wrth i'r sefyllfa waethygu, mae pethau'n teimlo'n fwy ansefydlog. Roedd ein haelodau'n mynegi'n glir, pe baent yn gorfod ysgwyddo costau ynni mwyaf sydyn, byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i weithredu.  Gyda'r ymgynghoriad diweddar ynghylch peidio â defnyddio Sefydliad Glowyr y Coed Duon am y tro, gyda'r bwriad o gadw'r adeilad fe y mae i'w ddefnyddio eto yn y dyfodol (mothballing), mae pryder y gallai achosion lle mae awdurdodau lleol yn lleihau eu hasedau ddod yn fwy cyffredin.

Y neges gyffredinol o'r holl sgyrsiau yw ei bod yn rhaid gweithredu ar y mater hwn, oherwydd yr effaith sylweddol ar ddarpariaeth ddiwylliannol ledled Cymru. Cydnabuwyd bod prosiectau cyfalaf yn tarfu ac yn amhoblogaidd yn ystod cyfnodau o ddirywiad, ond ar yr un pryd, mae hwn yn fater cylchol nad yw'n mynd i unman. Mae'n galw am ymrwymiad penodol gan lywodraethau cenedlaethol a lleol fel rhan o'u polisïau gwyrdd a diwylliannol, gydag arweiniad a chefnogaeth glir i'r sector ar sut i wneud y newid hwn.

Nododd Theatr Clwyd bwysigrwydd buddsoddiad y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus wrth sbarduno a denu rhagor o fuddsoddiad preifat ar gyfer ei brosiect cyfalaf ei hun.  Mae galw mawr ar

[4]Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwick, The State of the Arts, Campaign for the Arts a'r Ganolfan Astudiaethau Polisi Diwylliannol a'r Cyfryngau, Prifysgol Warwick, Gorffennaf 2024

draws y sector am gynllun strategol ar gyfer buddsoddi yn y stoc adeiladau fel asedau cymunedol gwerthfawr a hanfodol.

## ECOLEG GWAITH TEITHIOL, RHAGLENNI, CEFNOGI A CHYNHYRCHU

Mae heriau rhedeg busnes ac adeiladau yn straen enfawr ar arweinwyr strategol ar draws y sector. Ond i unigolion creadigol a rheolwyr yn sector y celfyddydau perfformio, croesawu cynulleidfaoedd i waith a gweithgarwch artistig o safon sy'n cyfoethogi bywydau ac yn bywiogi cymunedau yw'r hyn sy'n eu cymell i godi yn y bore. Ond mae pryder cynyddol ynghylch y gallu parhaus i gynhyrchu gwaith a mynd ar daith, gyda llawer o gwmnïau'n cwestiynu pa mor ymarferol yw teithio yng Nghymru yn y sefyllfa sydd ohoni.

Un o'r materion allweddol a leisiwyd yn gyffredinol ymhlith yr aelodau yw prinder cynnyrch teithio artistig – yn enwedig gwaith o safon sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae diffyg strategaeth cynhyrchu a theithiol, a'r prinder cyfleoedd sydd ar gael i wneuthurwyr theatr annibynnol Cymru greu gwaith ar raddfa fawr, yn destun pryder ers tro. Ond nawr, mae toriadau parhaus i gyllid, ynghyd â'r cynnydd yng nghostau deunyddiau; cynhyrchu technegol; ffioedd artistiaid a thimau creadigol; teithio a llety i'r cast a'r criw, yn dwysáu'r broblem ymhellach. Mae nifer y cynyrchiadau theatr proffesiynol o safon sy'n cael eu creu mewn theatrau cynhyrchu ac sydd ar gael i'w gweld ledled Cymru yn gostwng.

Roedd y cwmnïau a'r tai cynhyrchu y buom yn siarad â nhw i gyd yn cyfeirio at leihau nifer y cynyrchiadau y gallant eu creu dros y tair blynedd nesaf. Er bod Theatr Clwyd, tŷ cynhyrchu mwyaf Cymru, yn astudiaeth achos gadarnhaol ar gyfer twf a buddsoddiad yn sector y theatr yng Nghymru, mae hefyd yn rhagweld y bydd angen lleihau nifer y cynyrchiadau bron i hanner dros y flwyddyn nesaf. Yn ogystal â hyn, mae cwmnïau cynhyrchu drwyddi draw yn rhoi blaenoriaeth i gomisiynu a chreu gwaith gyda llai o gast. Soniodd Theatr y Sherman am flaenoriaethu dewisiadau castio lleol pan fo modd i gadw costau llety i lawr, yn ogystal â chael eu gorfodi i dorri gwaith ymchwil a datblygu ym maes cynhyrchu yn ystod y 18 mis nesaf.

O ganlyniad, mae'r hinsawdd yn mynd yn fwyfwy anodd i artistiaid ac unigolion creadigol nad ydynt yn byw ac yn gweithio ger canolfannau creadigol fel Caerdydd ac Abertawe. I'r gwrthwyneb, gyda'r tŷ cynhyrchu mwyaf yng Nghymru wedi'i leoli yn y Gogledd-ddwyrain, a rhannau helaeth o'i gymuned greadigol yn byw ac yn gweithio yn Ne Cymru, mae hyn hefyd yn codi problemau o ran

costau teithio a llety fel rhan o'r gwaith o gynllunio cynyrchiadau.  Yn gyffredinol, y canlyniad syml yw llai o waith, a mwy o bobl yn chwilio am waith y tu allan i Gymru neu mewn sectorau eraill.

Mae gwaith ymylol annibynnol ar raddfa fach yn elfen hanfodol o ecoleg y theatr a'r celfyddydau perfformio yng Nghymru.  Wrth i leoliadau ei chael hi'n anodd ymdopi â chynnydd mewn costau, nid ydynt yn gallu helpu i greu gwaith newydd. Fel un o'r lleoliadau allweddol yng Ngorllewin Cymru, dywedodd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, ei bod yn rhaid iddi fod yn fwy cyfyngol ac yn fwy craff wrth ymdrin â cheisiadau am gyllid prosiect ar gyfer cwmnïau annibynnol er mwyn sicrhau y bydd modd parhau i roi cymorth.  Yn ogystal â hyn, soniodd pob lleoliad am yr angen cynyddol i godi tâl am ofod ymarfer i helpu gyda chostau rhedeg, neu'r angen weithiau i gyfaddawdu ar ddatblygiad artistig neu raglenni sy'n canolbwyntio ar y gymuned i wneud lle ar gyfer llogi masnachol a gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm.

Ar gyfer lleoliadau sy'n derbyn, nid oes dwywaith y bydd prinder cynnyrch cartref o Gymru yn golygu y bydd angen cynyddu'r cynnyrch sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru.  Ar gyfer canolfannau mawr a chanolig Cymru, mae cynnyrch masnachol a phoblyddol yn rhan hanfodol o'u gweithrediad, ac felly'r ecoleg theatr ehangach maen nhw'n ei chefnogi.  Mae refeniw gwaith masnachol yn caniatáu buddsoddiad yn ôl i elfennau artistig mwy amrywiol y rhaglen.  Fodd bynnag, roedd rhaglenwyr yn mynegi'n glir nad yw cynyrchiadau theatr, a chynnyrch teithio masnachol yn benodol, wedi dod yn ôl i drefn yn iawn mewn unrhyw ffordd gyson na dibynadwy ers y pandemig. Y farn yw bod y rhwydwaith teithio, am gyfnod, wedi dal brig y don a grëwyd gan y cynnydd mewn Rhyddhad Treth Theatr a'r hyder a roddodd i hyrwyddwyr fynd ar daith fel rhan o'r adferiad ar ôl Covid.  Fodd bynnag, mae pryder bod yr hyder hwn yn debygol o ddod i ben eto oherwydd gostyngiad yng nghyfraddau Rhyddhad Treth Theatr a rhagor o doriadau cyllid, ac mae'r ffaith bod llai o gynnyrch ar gael yn dangos bod hyn yn digwydd yn barod.

Effaith ganlyniadol hyn yw y bydd angen i ganolfannau lenwi mwy a mwy o raglenni gyda gwaith sydd â mwy o risg yn perthyn iddo, am gyfnodau byrrach.  Nid yw'r gwaith hwn yn denu incwm na chynulleidfaoedd mawr yn hawdd, ac felly mae'n galw am fwy o gapasiti ac adnoddau i'w buddsoddi mewn cynlluniau datblygu cynulleidfaoedd (mae bwlch sgiliau cynyddol ar draws y sector yn barod, yn enwedig ar gyfer lleoliadau y tu allan i ranbarthau'r dinasoedd) a mwy o waith gweinyddol.  Yn gyffredinol, mae hyn yn arwain at lai o enillion, ac yn y rhan fwyaf o achosion, colledion tymor byr.

O safbwynt rhaglenni a chynhyrchu, dywedodd pawb fod newid mewn cytundebau contract rhwng canolfannau a chwmnïau sy'n ymweld.  Roedd symud oddi wrth sicrwydd i raniadau swyddfa

docynnau yn cael ei weld fel mater o raid gan y canolfannau er mwyn adennill costau. Fodd bynnag, cydnabuwyd yn gyffredinol nad yw natur cylchoedd cyllido prosiectau a'r modelau presennol o gynhyrchu theatr a rhaglenni wedi gallu addasu i'r newidiadau hyn mewn ffordd sy'n gweithio i'r naill ochr na'r llall. Mae sgyrsiau ynghylch datblygu cynulleidfaoedd, a phrisiau, yn dal i ddigwydd yn rhy hwyr. Ac yn syml iawn, nid yw cynyrchiadau ar werth yn ddigon hir i sicrhau'r gwaith helaeth a'r amseroedd arwain marchnata sydd eu hangen i ddatblygu cynulleidfa i gyflawni'r rhaniadau.

Roedd llawer yn teimlo nad yw'r newidiadau hyn yn yr ecoleg o ran adnoddau lleoliadau, cynnyrch teithiol masnachol ac artistig, yn cael eu cydnabod yn briodol ar lefel cyllidwyr. Yn ogystal â hyn, nid yw'r buddsoddiad sylweddol a'r ffocws hirdymor y mae cynlluniau datblygu cynulleidfaoedd ystyrlon yn ei fynnu yn cyd-fynd â'r disgwyliadau sy'n ymwneud â rhaglenni artistig.

Y farn yw bod angen gwell dealltwriaeth ac eglurder cyffredin rhwng y sector a CCC ynghylch ecoleg cynyrchiadau teithiol a chynhyrchu yng Nghymru, a chydbwysedd y cynnyrch sydd ei angen i'w chefnogi. Heb hyn, y pryder yw y bydd y cynnyrch sydd ar gael yn parhau i grebachu, gyda chanlyniadau difrifol i gynulleidfaoedd a darpariaeth ddiwylliannol ledled Cymru, a gallai gymryd blynyddoedd i bethau fynd yn ôl i drefn ar ôl hynny.

## CYNULLEIDFAOEDD SY'N PRYNU TOCYNNAU

Wrth fyfyrio ar effaith yr hinsawdd bresennol ar batrymau ac ymddygiad cynulleidfaoedd, daeth yn amlwg, er bod cynulleidfaoedd yn dal i ddod, fod eu hymddygiad wrth archebu yn newid. Wrth ystyried archebu, mae'r amlder yn is, gyda phrynwyr tocynnau'n dangos llai o awydd i fynd i weld gwaith gyda mwy o risg yn perthyn iddo (gwaith mwy artistig neu newydd). Mae patrymau a dewisiadau archebu yn gofyn am sicrwydd o adloniant; teitlau a chast adnabyddus, gyda diffyg diddordeb mewn rhaglenni â mwy o risg yn perthyn iddynt a theitlau anghyfarwydd. Wedi dweud hyn, yn achos prif dŷ cynhyrchu Caerdydd, mae Theatr y Sherman wedi sylwi bod eu cynnyrch mewnol yn cyd-fynd â thwf amlwg mewn teyrngarwch brand dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynulleidfaoedd yn dychwelyd ac yn cefnogi gwaith a theitlau newydd, yn benodol rhai sy'n ymdrin â straeon sy'n cynrychioli cymunedau a hunaniaethau cymdeithasol Caerdydd fel dinas.

O ran prisiau tocynnau, roedd pob lleoliad yn dweud yn glir bod angen iddynt gydbwyso eu hanghenion busnes gymaint â phosibl â'u pwrpas craidd fel adnoddau dinesig. Soniodd y rhan fwyaf o leoliadau am ymrwymiad i beidio â throsglwyddo effaith yr argyfwng costau byw i'w cynulleidfaoedd. Roedd y farn hon yn arbennig o gryf mewn canolfannau sy'n gweithredu mewn

ardaloedd lle mae lefelau amddifadedd cymdeithasol yn eithafol.  Hyd yn oed pan nad oedd y penderfyniad yn cael ei yrru gan werthoedd, y profiad ymarferol oedd y byddai unrhyw gynnydd ym mhris tocynnau yn rhwystr a fyddai'n atal pobl rhag ymweld.

Nododd y canolfannau a'r cwmnïau sydd â mwy o adnoddau eu bod yn edrych ar fodelau prisio newydd, gyda phrisio deinamig yn dod yn fwy cyffredin.  Dywedodd Venue Cymru fod yr opsiwn newydd 'talu mewn tri' yn boblogaidd iawn. Mewn cyd-destunau cymunedol mwy lleol, roedd modelau 'talu beth allwch chi' ar rai perfformiadau a rhaglenni allweddol yn gyffredin.  Nododd llawer o'r aelodau fod y diffyg arbenigedd a phrofiad mewn gwaith marchnata a chynulleidfaoedd strategol yn dipyn o broblem wrth gyflwyno modelau fel y rhain. Cyfeiriwyd at hyn mewn perthynas â gostyngiadau cyffredinol mewn lefelau staffio, gyda swyddi swyddfa docynnau, codi arian, blaen tŷ a marchnata yn aml yn cael eu rhannu, ac mewn rhai achosion, yn dod yn rôl un person.

Mae hyn yn tynnu sylw unwaith eto at y sgiliau a gollwyd yn y maes hwn yn y sector, ar ôl colli unrhyw ffocws strategol cenedlaethol ar ddatblygu cynulleidfaoedd ers i Cynulleidfaoedd Cymru ddod i ben yn 2008.  Mae'r diffyg buddsoddiad hwn yn y maes yn cyd-fynd â gostyngiad mewn cynulleidfaoedd, yn ogystal â llai o allu i fynd ati'n effeithiol i ddiffinio, proffilio a chynyddu gwerth y celfyddydau a diwylliant ymhlith y cyhoedd.

## ANGEN CYMDEITHASOL

Mae tystiolaeth eang fod cael mynediad at y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn gwella ansawdd bywyd ac yn cefnogi iechyd a lles. Mae hon yn gred graidd mewn gwahanol ffyrdd ymhlith ein haelodau i gyd.  Mae pob un yn ystyried ei hun yn adnodd dinesig, cymdeithasol neu gymunedol.

Mynegodd pob un ymrwymiad i wasanaethu eu cymunedau lleol er mwyn gwella a chyfoethogi bywydau pobl a mynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach.  Roedd gan bob un neges frys hefyd, sef ei bod yn anoddach ateb yr angen cynyddol am waith sy'n rhoi ffocws ar y gymuned ac yn ennyn diddordeb cymdeithasol, yn wyneb cyllidebau sy'n lleihau a'r heriau cymdeithasol ehangach y mae pawb yn eu hwynebu.

Mae'n gyffredin bod sefydliadau a lleoliadau wedi symud eu ffocws ymgysylltu i bobl ifanc a'u lles emosiynol a meddyliol, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd cymdeithasol.

Gwelodd Theatr Clwyd gynnydd yn y galw am eu rhaglen presgripsiynu cymdeithasol, iechyd a'r celfyddydau, yn ogystal â'u gwaith gyda gwasanaethau cymdeithasol yn cynnig atgyfeiriadau creadigol gyda phobl ifanc y tu allan i oriau ysgol.  Dywedodd llawer o leoliadau eu bod yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r cynllun Canolfannau Clyd.  Nododd y Memo, Trecelyn, a Theatr The Torch fod y lefelau presenoldeb yn y sesiynau hyn yn dangos bod galw mawr gan y gymuned leol. Yn wir, roedd yr angen i ddarparu'r gweithgaredd hwn drwy gydol y flwyddyn yn glir. Fodd bynnag, nid oedd y naill leoliad na'r llall yn gallu parhau â'r gwaith hwn heb i'r ffrwd gyllido honno barhau.  Ategwyd hyn yn gyffredinol gan y lleoliadau eraill a oedd yn rhan o'r cynllun.

I lawer o ganolfannau sy'n gweithredu mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, mae colli darpariaeth gymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn dod yn fwy amlwg. Mae pryder cynyddol fod gofyn i'r celfyddydau lenwi bylchau gydag ymyriadau a chymorth mewn meysydd nad ydynt yn cael eu hariannu na'u hyfforddi'n briodol i'w darparu.

Nododd y Memo yn Nhrecelyn eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig triwantiaeth mewn ysgolion a fandaliaeth. Buont yn siarad am yr her ddyddiol o reoli trais, ymddygiad ymosodol a niwsans ymhlith plant ysgol yn eu harddegau o'r gymuned a'r dalgylch lleol, yn yr adeilad a'r tu allan iddo. Mae hyn yn arwydd o golli llawer o wasanaethau ieuenctid ehangach sy'n cefnogi ac yn ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardaloedd hyn, ynghyd ag effaith Covid, sy'n dal i'w weld ar iechyd meddwl ac ymddygiad cymdeithasol y grŵp oedran hwnnw.

Soniodd llawer o'r aelodau am arwyddocâd yr argyfwng mewn addysg ar eu gwaith, a'u gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd.  Dyma enghraifft arall o sut mae'r celfyddydau a diwylliant yn gysylltiedig â'i gilydd ar draws y sector cyhoeddus.  Mae'n amlwg bod ysgolion ac athrawon yn gwbl ymwybodol o werth cysylltu plant a phobl ifanc â'r celfyddydau.  Fodd bynnag, soniodd pawb am y materion cynyddol gymhleth sy'n wynebu ysgolion ac effaith hyn yn ar y cysylltiad mae eu disgyblion yn ei gael â phrofiadau celfyddydol a diwylliannol.  Nodwyd bod newidiadau yn ymddygiad disgyblion a'r cynnydd sydyn yn y ddarpariaeth anghenion ychwanegol yn rhwystr cynyddol i deithiau i'r theatr.

Yn ogystal, awgrymwyd y gallai'r rhaglen Ysgolion Creadigol fod wedi newid safbwyntiau athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol am natur ymgysylltu creadigol.  Yn y gorffennol, byddai gweithdai cwmnïau a gweithgareddau mewn ysgolion wedi trefnu tocynnau i ysgolion mewn theatrau, ond awgrymwyd bod disgwyl erbyn hyn i brofiadau celfyddydol ddigwydd yn yr ysgol.

Cododd Theatr The Torch y pwynt fod cyllid yr awdurdod addysg lleol a ddefnyddiwyd ar gyfer teithiau penodol i ysgolion dros y ddeng mlynedd ddiwethaf wedi gostwng o £200K i £10k, gan dynnu sylw unwaith eto at ba mor anodd yw cadw lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen i gynnal y berthynas rhwng y celfyddydau ac addysg.

Cododd seilwaith trafnidiaeth Cymru sawl gwaith fel rhwystr sylfaenol yn y berthynas rhwng ysgolion, theatrau a chwmnïau cynhyrchu. Mae costau teithio ac argaeledd wrth logi bysiau moethus yn broblem, a nododd llawer o dimau dysgu creadigol y cwmnïau cynhyrchu nad yw'r cronfeydd Ewch i Weld a Rhowch Gynnig Arni mor adnabyddus ar draws y system ysgolion ag y gallent fod. Y farn gyffredin yw bod y cronfeydd yn rhoi baich gweinyddol ar ysgolion, sydd eisoes dan ormod o bwysau, a bod hwn yn afresymol mewn rhai achosion. Ar ben hynny, dywedodd cwmnïau nad oedd rhai timau a oedd yn gyfrifol am y swyddfa docynnau yn gwybod rhyw lawer am fanylion y cronfeydd, ac nad oedd gwybodaeth yn treiddio i lawr gan y timau dysgu creadigol – rhai ohonynt yn gweinyddu ceisiadau ar ran yr ysgol hyd yn oed i sicrhau'r archeb. Unwaith eto, heb broses strategol yn cysylltu addysg, trafnidiaeth a dysgu creadigol fel rhan o'r cwricwlwm creadigol, y teimlad oedd y byddai'r rhwystrau hyn yn parhau i fod yn broblem.

## EIRIOLI EIN GWERTH

Mae'r sgyrsiau hyn yn cyfleu amrywiaeth o broblemau sy'n dangos profiadau ehangach aelodau Creu Cymru a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ledled Cymru.

Un o'r prif bethau oedd yn achosi rhwystredigaeth gyson ym marn yr aelodau oedd y teimlad nad ydynt yn gallu cyfleu gwir werth cymdeithasol ac effaith y celfyddydau perfformio. Yn benodol, y ffaith nad oes digon o amser i arafu ac adolygu'r system, yn unigol ac fel sector, i gasglu tystiolaeth gadarn a thrylwyr o'r effeithiau a'r heriau rydym ni'n eu hwynebu. Ar draws ein sampl, dim ond un neu ddau o sefydliadau oedd â data ROI neu ROSI hygyrch, gan ei gwneud yn anodd creu darlun cynrychioliadol o'r sector. Mae'r gydberthynas rhwng sefydliadau sydd â mwy o adnoddau a'r gallu i gasglu a gwerthuso data'n gadarn yn arwain at dystiolaeth nad yw'n gwbl gytbwys, ac mae'r rheidrwydd ar sefydliadau llai, sydd â llai o adnoddau, i frwydro i ddelio â phethau sydd angen sylw a'r bylchau mewn sgiliau yn amlygu hyn eto.

Mae prinder offer a systemau canolog i gofnodi, monitro a chyfleu gwir effaith y celfyddydau a diwylliant mewn ffordd sy'n treiddio – drwy adrodd straeon sy'n rhoi pwyslais ar bobl a defnyddio enghreifftiau sy'n creu cyswllt emosiynol.

Roedd pob aelod yn gwerthfawrogi eu cymhorthdal cyhoeddus ac yn cydnabod yr heriau a'r anawsterau mawr y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn eu hwynebu yn yr hinsawdd sydd ohoni. Fodd bynnag, roedd cryn bryder ynghylch y diffyg eiriolaeth gyhoeddus ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, neu fframwaith strategol clir i wneud penderfyniadau oddi mewn iddo.

Rydym yn awyddus i ddeall sut gallai ymwybyddiaeth o'r effeithiau a'r heriau rydym yn eu codi yn yr adroddiad hwn fod yn sail i benderfyniadau am fuddsoddiad a chymorth i'n sector. Rydym yn gobeithio y gall yr adroddiad hwn gychwyn deialog ehangach a manylach ynghylch sut i sefydlogi a chydbwyso buddsoddiad cyhoeddus yn ein gwaith.  Buddsoddiad a fydd yn ein galluogi i ymdopi â'r heriau, ond yn bwysicach na dim, i rannu'r cyfleoedd dirifedi y mae'r celfyddydau perfformio yn eu cynnig i unigolion a chymunedau Cymru, gan gryfhau gwead cymdeithasol ein cenedl ddiwylliannol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

---

**Atodiad 1.**
**AELODAU A GYFWELWYD**

- Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth (Lleoliad Prifysgol)
- Arad Goch (Cwmni Cynhyrchu)
- August 012 (Cwmni Cynhyrchu / Annibynnol)
- Sefydliad Glowyr y Coed Duon (Lleoliad Awdurdod Lleol)
- Theatrau Sir Gâr (Lleoliadau Awdurdod Lleol)
- Dirty Protest (Cwmni Cynhyrchu / Annibynnol)
- Lighthouse Theatre (Cwmni Cynhyrchu)
- Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (Cwmni Dawns sy'n Cynhyrchu ar lefel Genedlaethol / Lleoliad)
- Memo Trecelyn (Ymddiriedolaeth Theatr Annibynnol / Lleoliad)
- Canolfan Gelfyddydau Pontardawe (Lleoliad Awdurdod Lleol)
- Pontio (Lleoliad Prifysgol)
- Theatr Glan yr Afon (Lleoliad Awdurdod Lleol)
- Theatr y Sherman (Tŷ Cynhyrchu / Lleoliad)
- Cwmni Theatr Taking Flight (Cwmni Cynhyrchu Theatr)

- Canolfan y Celfyddydau Taliesin (Lleoliad Prifysgol)
- Theatr Clwyd (Tŷ Cynhyrchu / Lleoliad)
- Theatr Colwyn (Lleoliad Awdurdod Lleol)
- Theatr Genedlaethol Cymru (Cwmni Theatr sy’n Cynhyrchu ar lefel Genedlaethol)
- Theatr Iolo (Cwmni Theatr sy'n Cynhyrchu)
- Theatr na NÓg (Cwmni Theatr sy'n Cynhyrchu)
- Theatr y Torch (Tŷ Cynhyrchu / Lleoliad)
- Venue Cymru (Lleoliad Awdurdod Lleol)
- Canolfan Mileniwm Cymru (Canolfan Gelfyddydol Genedlaethol)

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

14 Ionawr 2025

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025, fe wnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), a osodwyd gerbron y Senedd gennych ar 2 Ionawr.

Mae gennym nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r Memorandwm hwn a byddem yn ddiolchgar felly pe baech ar gael i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn y cnawd ar 3 Chwefror er mwyn helpu i lywio ein gwaith craffu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â'r tîm clercio i wneud y trefniadau perthnasol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: AL1886

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCulture@senedd.wales

16 Ionawr 2025

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr ynglŷn â chodi tâl am brofiadau ac arddangosfeydd wedi'u curadu gan Amgueddfa Cymru.

Yn 2001, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fynediad am ddim i'r casgliadau parhaol yn yr amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb ac i annog ystod fwy amrywiol o ymwelwyr. Cafodd hyn ei gyflwyno cyn gweddill y DU a, diolch i gyllid Llywodraeth Cymru, mae ymwelwyr yn parhau i fynd i mewn i bob un o'r saith safle yn Amgueddfa Cymru am ddim. Adlewyrchir ein hymrwymiad parhaus i'r polisi hwn yn ein Blaenoriaethau Diwylliant drafft, sy'n cynnwys yr uchelgais 'Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol'. Rwyf hefyd wedi pwysleisio i Amgueddfa Cymru pa mor bwysig yw sicrhau bod y casgliad cenedlaethol yn parhau i fod yn hygyrch i bawb.

Er bod mynediad i'w casgliadau parhaol am ddim, mae amgueddfeydd cenedlaethol ledled y DU yn parhau i godi tâl am y profiadau a ddisgrifiwch yn eich llythyr gan gynnwys arddangosfeydd dros dro a digwyddiadau arbennig. Yn unol ag egwyddor hyd braich, mater i Amgueddfa Cymru yw gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gofyn am rodd neu godi tâl am brofiadau a guradwyd o'r fath. O gofio'r hinsawdd ariannol bresennol, rwy'n cefnogi Amgueddfa Cymru i archwilio dulliau arloesol o gynhyrchu incwm a chodi tâl i'w helpu i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol. Pe bai ei Fwrdd Ymddiriedolwyr yn penderfynu ystyried cynnig i newid ei fodel codi tâl am brofiadau a guradwyd yn barhaol, fy nisgwyliad yw:

- byddai'r broses o wneud penderfyniadau yn ystyried sut y gallai'r newid helpu i wneud y mwyaf o incwm, gan leihau unrhyw risgiau i nifer yr ymwelwyr, ymgysylltiad a thegwch o ran mynediad i'r casgliadau cenedlaethol yng ngofal yr Amgueddfa

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- byddai asesiad effaith yn cael ei gynnal, gan dynnu ar ddata perthnasol, i nodi a fyddai unrhyw grwpiau o fewn ein cymunedau o dan anfantais; ac y byddai trefniadau lliniaru priodol ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Mae Amgueddfa Cymru yn arwain ar y gwaith o asesu effaith ei threialon o godi tâl. Mae'n ystyried a oes angen rhagor o dreialon i gasglu mwy o ddata. Mae hefyd yn archwilio sut y gall gyrchu data cymharol ac mae'n gweithio gyda ni i ystyried sut y gall ddefnyddio ei ddata dienw yn well. Bydd yr holl ddata a gesglir yn helpu Amgueddfa Cymru i werthuso sut mae unrhyw newid i fodelau codi tâl yn cydymffurfio â'n polisi ar fynediad am ddim i'r casgliadau parhaol a'i ethos gwaelodol.

Fy mherthynas â chyrff hyd braich diwylliannol yn seiliedig ar yr egwyddor o gyfathrebu effeithiol, lle rydym yn agored, yn rhannu gwybodaeth ac yn rheoli materion cymhleth neu heriol trwy ddeialog. Trwy ddefnyddio dull partneriaeth, a thrwy weithio gyda'n gilydd, rwy'n hyderus y gallwn sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro rhwng mentrau cynhyrchu incwm penodol a'r egwyddor barhaus o fynediad am ddim i bawb i'n casgliad cenedlaethol.

Yn gywir,



**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

# Eitem 2.8

**Ymateb Cymdeithas yr Iaith i gynllun strategol drafft 2025-2030 Comisiynydd y Gymraeg**

**Cyflwyniad**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru, fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros ryddid a chyfiawnder ers dros 60 mlynedd.

**CRYNODEB O BRIF ALWADAU**

Galwn arnoch fel Comisiynydd yn gyffredinol i:

- Ail-afael yn eich swyddogaeth graidd fel rheoleiddiwr annibynnol dros y Gymraeg ac eiriolwr dros hawliau siaradwyr Cymraeg
- Rhoi'r gorau i hwyluso gweithredu trwy'r drws cefn gynlluniau Llywodraeth Cymru (2017-2019) i wanhau cyfundrefn rheoleiddio'r Gymraeg a throi'r Comisiynydd yn gorff hyrwyddo'r Gymraeg yn bennaf, yn groes i Fesur y Gymraeg 2011.Mae angen i swyddfa'r Comisiynydd allu gweithredu swyddogaeth graidd y Mesur, a chryfhau'r swyddogaeth arbenigol, annibynnol yn craffu a chynghori er lles y Gymraeg, gwaith y bydd galw cynyddol amdano os daw Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) i fod, os am weddnewid sefyllfa'r Gymraeg ym maes cynllunio gwlad a thref ac os am ddal traed y Llywodraeth i'r tân i gyrraedd y Miliwn o Siaradwyr. Rhagwelwn bod angen Unedau arbenigol i weithio ym maes Addysg Gymraeg, Cynllunio a Gwireddu'r taflwybr tuag at darged 2050.
- Ymrwymo i adael swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd ar y cyfle cynharaf ac i edrych am leoliad mwy addas yn y brifddinas, er mwyn ailgyflwyno rhyw argraff, o leiaf, o hygrededd ac annibyniaeth i waith y corff

Galwn arnoch i ailwampio Cynllun Strategol 2025-2030:

- Fel bod *hawliau pobl* i ddefnyddio'r Gymraeg yn ganolog i'r amcanion, a bod ymrwymiad i ddefnyddio grym y gyfraith yn llawn mewn ffordd fesuradwy (ymrwymiadau CAMPUS) i symud pethau ymlaen
- Fel bod ymrwymiad pendant a mesuradwy mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gweithle i greu nifer penodol o weithleoedd sy'n gweinyddu yn bennaf neu'n llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg - ar lafar ac yn ysgrifenedig - erbyn diwedd oes y Cynllun yn 2030, gan wneud polisi llwyddiannus cyrff fel Cyngor Gwynedd a'r Llyfrgell Genedlaethol yn norm
- Fel bod ymrwymiad yn y sector iechyd a gofal i geisio gwireddu erbyn 2030 fodolaeth hawl absoliwt i bobl Cymru i dderbyn gofal clinigol, arbenigol (e.e. iechyd meddwl a seiciatryddol) a chymdeithasol yn llwyr yn Gymraeg, ac i bwyso ar y Llywodraeth i osod Safonau Iaith ar ddarparwyr gofal sylfaenol fel bod modd gweld e.e. meddyg teulu, deintydd a fferyllydd yn Gymraeg, gan amlygu'r sefyllfa warthus bresennol eu bod wedi'u hepgor.

- I roi'r gorau i wastraffu adnoddau ac arian y Gymraeg yn annog cyrff ariannog fel banciau ac archfarchnadoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddefnyddio'r adnoddau yn hytrach i
  (i) cynnal ymgyrch gyhoeddus i gywilyddio Llywodraeth Cymru am ei methiant i ddefnyddio ei grymoedd i gyflwyno Safonau Iaith ar gorfforaethau mawrion fel cwmnïau ynni a nwy sy'n gwneud ffortiwn ar gefn pobl Cymru bob blwyddyn; a
  (ii) dechrau ymchwiliad safonau i gwmnïau telathrebu, a phwyso ar Lywodraeth Cymru am yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg gydag archfarchnadoedd, banciau, meysydd parcio preifat a'r sector breifat yn ei chyfanrwydd.
  (iii) adeiladu a gweithredu cronfa ar gyfer cychwyn ac ymuno mewn achosion llys er lles y Gymraeg, a fyddai ar agor i gymunedau wneud cais, ac a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i statws yr iaith a gallu unigolion i'w defnyddio
- I gynnwys ymrwymiad i roi arweiniad cyhoeddus am y gwaith o gwblhau cyflwyno rheoliadau safonau i'r holl sefydliadau mae modd gwneud hynny o dan atodlenni'r Mesur ar hyn o bryd: cyrff o bwys ac y mae pobl Cymru yn dod i gyswllt â nhw yn rheolaidd megis Swyddfa Post Cyf, y system fudd-daliadau, cyrff y Goron ayb.
- I ail-gyflwyno dangosyddion am nifer a chanran yr ymchwiliadau statudol sy'n cael eu hagor yn dilyn derbyn cwynion dilys o dan adran 93 Mesur y Gymraeg yn flynyddol, a'r nifer gaiff eu terfynu, fel cyfanswm o'r holl gwynion a dderbynnir
- I gynnwys ymrwymiad i ddefnyddio pwerau'r Comisiynydd i ddechrau ac i ymyrryd yn rheolaidd ac yn strategol mewn achosion cyfreithiol, gan adrodd ar nifer yr achosion fel dangosydd yn flynyddol.
- I wneud defnydd o bwerau'r Comisiynydd i gynnal ymholiadau statudol, fel a wnaed gyda Fy Iaith, Fy Iechyd.

Galwn ar Lywodraeth Cymru:

- I adfer y toriad o 25% i gyllideb y Comisiynydd ac anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaed ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg ynghylch lefelau cyllido'r sefydliad

Galwn ar Bwyllgor Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, y gwrthbleidiau yn y Senedd ac aelodau meinciau cefn y Ddeddfwrfa:

- I ofyn cwestiynau caled, parhaus o'r Comisiynydd nes bod sicrwydd ei bod yn gweithredu yn unol a'r Mesur ac er lles hawliau siaradwyr Cymraeg, a bod ei hadnoddau wedi'u hail-drefnu ar sail hynny
- I graffu ar berthynas y Comisiynydd a'r Llywodraeth
- I graffu effeithiolrwydd gweinyddiaeth Tribiwnlys y Gymraeg a'i rôl yn grymuso achwynwyr ac i hyrwyddo eu mynediad i gyfiawnder gweinyddol, a'r graddau y mae ei benderfyniadau yn cael yr effaith o ddal y Comisiynydd yn atebol.

**SYLWEDD YR YMATEB**

**Rôl Comisiynydd y Gymraeg**

Er bod ymdrechion y Llywodraeth i gyflwyno Deddf Iaith wannach rhwng 2017-2019 wedi'u gwrthod yn llwyr, ymddengys bod y Comisiynydd yn parhau yn frwd i geisio cyflawni cynlluniau'r Llywodraeth ar ei rhan, sydd yn codi cwestiynau pellach am ei haddasrwydd i fod yn eiriolwr annibynnol dros hawliau siaradwyr Cymraeg. Pryderwn fod ymddygiad y Comisiynydd yma, ymhell o fod yn eiriolwr dros siaradwyr Cymraeg.

Yn anffodus iawn, mae cymeriad y sefydliad sydd i'w weld yn y cynllun yma wedi'i newid yn llwyr o gymeriad a chenhadaeth y sefydliad gafodd ei greu yn 2012 - a hynny mewn ffordd nas bwriadwyd o gwbl yn sgil Mesur y Gymraeg 2011. Mesur yr ymgyrchwyd yn hir amdano. A Mesur sy'n parhau heb ei newid, er gwaethaf ymdrechion i wneud hynny, ond a dynnwyd yn ôl yn sgil gwrthwynebiad chwyrn.

Mae'r newidiadau yma wedi dod i fod heb fod newid yr un darn o ddeddfwriaeth gynradd, heb fod newid y polisi gorfodi (er y deallwn fod ymdrechion ar droed i wneud hynny, byddwn yn ymateb ar wahân i'ch ymgynghoriad yn y cyswllt hwnnw), a'r cyfan yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae hynny yn annerbyniol ac yn gwbl annemocrataidd. Rhaid gofyn sut y bu iddo ddigwydd.

Mae cwestiynau mawr i'w gofyn am Gomisiynwyr y Gymraeg (eu trefniadau llywodraethu a her mewnol - Panel Cynghori, Pwyllgor Archwilio a Risg ayb), ac am y tair cangen lywodraethu ym maes y Gymraeg, sef y Llywodraeth, y gwrthbleidiau / deddfwrfa, a Thribiwnlys y Gymraeg. Rydym felly yn gwneud argymhellion i'r rhain oll.

Trawiadol yw cymharu'r Cynllun Strategol Drafft â naratif y sefydliad a grëwyd yn 2012. Gellid dweud ei fod yn cadarnhau'r erydiad graddol ar y corff.

Er enghraifft, yn yr adran rheoleiddio ar dudalen 6, dywed y Cynllun mai "Pwrpas safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg yw cynyddu'r nifer o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, a hybu a hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau hynny."

Mae hyn fel petai yn anwybyddu'r ffaith mai mecanwaith i greu hawliau i siaradwyr Cymraeg yw'r Safonau Iaith, ac mae'r Mesur yn dweud yn adran 1. 2(a) y rhoddir effaith i statws swyddogol yr iaith, ymysg pethau eraill, "yn sgil yr hawliau sy'n deillio o orfodi'r safonau".

Mae'r Cynllun yn gyffredinol, a'i ieithwedd, ei bwyslais a'i ddadansoddiad yn cynrychioli diwylliant a pherthynas rhy gysurus gyda'r Llywodraeth a'r cyrff y mae'r Comisiynydd i fod yn eu rheoleiddio er lles yr iaith, a'r eiriolydd annibynnol y mae'r Comisiynydd i fod, fel pencampwr dros siaradwyr Cymraeg.

Dydy'r geiriau 'hawl', 'hawliau' nac 'achwynydd' ddim yn ymddangos yn y Cynllun Strategol drafft hwn o gwbl, fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan gorff sydd i fod yn eiriolwr dros bobl ac fel sydd wedi bod yn y gorffennol.

Mae'r Amcanion wedi eu gwanhau hefyd. Mae'ch cynllun strategol *presennol* yn gosod amcanion clir ac yn gwneud pobl, cynyddu gwasanaethau a dyrchafu'r Gymraeg yn ganolog iddynt:

Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg
Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth
Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol
Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Mae Amcanion *arfaethedig* Cynllun Strategol 2025-30 ar y llaw arall yn gyffredinol iawn. Er na fyddai unrhyw un anghytuno gyda nhw, does dim digon o uchelgais iddynt fel amcanion, ac maen nhw wedi eu gwanhau o ran ieithwedd, cynnwys ac effaith:

Amcan 1: Cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg
Amcan 2: Hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg
Amcan 3: Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach

Yr hyn a ddaw'n amlwg o'r amcanion, yw bod pwyslais ar roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac mai eu dewis nhw wedyn yw defnyddio'r iaith ai peidio, heb ystyried bod iaith yn ffenomen gymdeithasol a bod grymoedd o bob math yn cyfyngu ac yn dylanwadau ar ddewisiadau unigolion.

Yn hytrach nag amcanion sy'n sicrhau gwasanaethau a darpariaeth Gymraeg a bod y ddarpariaeth ar gael yn amlwg maent yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyhoedd i wneud defnydd o wasanaethau.

Mae'n glir yn amcanion, pwrpas a blaenoriaeth y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn eu bod yn bod yn cymryd eu rôl fel eiriolydd cryf a chadarn dros bobl o ddifri.

Mae'r Comisiynydd Plant yn nodi mai ei phwrpas yw bod yn arwr hawliau ac yn heriwr. Ymysg ei hamcanion mae:

*"cefnogi ac yn grymuso plant i godi llais a rhannu eu profiadau amrywiol gyda llunwyr penderfyniadau.*
*"herio ac yn cefnogi eraill i sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu gwireddu."*[1]

Yn yr un modd mae Comisiynydd Pobl Hŷn yn nodi *"Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru"* fel un o'i swyddogaethau.[2]

Mae'n glir bod pobl yn ganolog i'w hamcanion a'u blaenoriaethau a'u nod yw bod yn eiriol dros y bobl maen nhw'n eu cynrychioli.
Mae'r hawliau sydd gan blant a phobl hŷn yn fwy clir ac yn gyffredin ar draws pob maes, tra bod

[1] https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/strategaeth-tair-blynedd-2023-26
[2] https://comisiynyddph.cymru/amdano/ynghylch-y-comisiynydd/swyddogaeth-a-phwerau-cyfreithiol

hawliau iaith wedi eu cyfyngu i feysydd penodol, sy'n golygu ei bod yn haws gosod amcanion fel sydd gan y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn. Er hynny, mae hefyd yn golygu bod angen i Gomisiynydd y Gymraeg wneud mwy i ehangu hawliau.

Dylai Comisiynydd y Gymraeg weithredu fel llais cryf dros bobl Cymru yn yr un modd, a mynnu mwy o ddarpariaeth Gymraeg.

Yn ogystal, mae cwestiwn am osod swyddfa'r Comisiynydd yn ein prifddinas ym mhencadlys y Llywodraeth ym Mharc Cathays gan fod y Llywodraeth yn gorff mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ei ddal i gyfri.
Tra yn deall bod arbedion ariannol o gau swyddfa, ac y gallai'r cyllid sydd wedi ei arbed gael ei roi at waith arall y Comisiynydd, y gwir amdani yw mai arbed arian yn wyneb toriad i gyllideb Comisiynydd y Gymraeg oedd hyn. Byddai datrysiadau amgen wedi cyflawni'r un nod, megis rhannu swyddfa gyda'r Comisynwyr eraill, neu gyda sefydliadau Cymraeg eraill yn y brifddinas. Nodwn nad yw'r Comisiynwyr eraill, hyd y gwyddom, wedi ymuno yn y gofod ym Mharc Cathays a bod gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn wahanol i'r Comisiynwyr hynny, bwerau rheoleiddiol uniongyrchol dros y Llywodraeth a'i gweithrediadau.

Y Llywodraeth sydd yn penodi ac yn ariannu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrth gwrs, felly mae'n rôl hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, ond mae rhannu gofod ac adnodda swyddfa yn golygu bod swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn fwy agored i'r canfyddiad o gael ei ddylanwadu gan y Llywodraeth ac o fethu cynnal annibyniaeth briodol.

Galwn ar y Comisiynydd i ailafael yn ei swyddogaeth fel rheoleiddiwr annibynnol yn anad dim arall ac i ddechrau gweithredu yn yr un modd.

Dylai'r Comisiynydd fod yn fwy llafar a rhagweithiol, dylai bwyso ar y Llywodraeth i weithredu a gyrru amserlen safonau'r Llywodraeth. Er mai'r Llywodraeth sydd yn gyfrifol am lunio rhaglen ac amserlen i osod Safonau mae Comisiynydd y Gymraeg i fod yn gorff sy'n eiriol dros y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwneud hynny trwy alwadau cyhoeddus sy'n tynnu sylw at arafwch y Llywodraeth a thrwy bwysau mewnol,

Mae rhan helaeth y gwasanaethau mae pobl yn eu defnyddio yn ddyddiol yn wasanaethau gan gwmnïau preifat. Mae lle gan y Comisiynydd i fynnu'r hawl i'r Gymraeg yn y sector breifat, eto trwy dynnu sylw at yr angen a thrwy bwyso ar y Llywodraeth i wneud hynny.

**Defnyddio Grymoedd**

Mae nifer o rymoedd gan Gomisiynydd y Gymraeg drwy'r Mesur, ac angen gwneud defnydd ohonynt er budd siaradwyr Cymraeg.

Dros y blynyddoedd mae llai o ymchwiliadau i gwynion o fethu cydymffurfio â'r Safonau yn cael eu cynnal.

Tra yn derbyn bod y Comisiynydd yn ceisio datrysiad gyda'r sefydliadau yn y lle cyntaf, a bod hynny yn gallu arwain at ddatrysiad mwy sydyn, dydy sefydliadau ddim yn cofnodi cwyn yn eu herbyn yn yr achos hynny, ac felly dydy eu hadroddiad cydymffurfio ddim yn adlewyrchu'r sefyllfa a dydy'r mater ddim yn cael ei drin â'r un difrifoldeb na thryloywder.

Wedi agor ymchwiliad credwn y dylid defnyddio pwerau gorfodi a cosbi'r Comisiynydd yn llawn pan fo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau tegwch i'r sawl sydd wedi methu derbyn gwasanaeth Cymraeg, ac i ddangos difrifoldeb y mater. Byddai sylw cyhoeddus i'r methiant a'r datrysiad, er enghraifft, yn anogaeth i sefydliad gadw at safonau ac yna sicrhau bod cynllun gweithredu mewn lle. Gan y byddai aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r methiant bydd hi'n bwysicach i sefydliad sicrhau ei fod yn cadw at y cynllun gweithredu ac nad yw'r methiant yn digwydd eto.

Galwn am ailgyflwyno dangosydd nifer ymchwiliadau a agorwyd ac a derfynnir, a chyflwyno o'r newydd ddangosydd nifer yr adolygiadau barnwrol dechreuwyd ac y cyfrannwyd atynt - y dau fel dangosyddion allweddol sydd angen eu cynnwys yn y Cynllun. Er bod y Cofrestr Camau Gorfodi yn gyhoeddus dydy hynny ddim yn rhoi argraff lawn o nifer yr ymchwiliadau a chwynion ac ati. Mae'n bwysig, er mwyn tryloywder, i'r cyhoedd allu gweld mwy am waith y Comisiynydd, a faint o gwynion sy'n cael eu derbyn ond nad oes ymchwiliad iddynt.

**Themâu'r Cynllun Strategol**

Mae Iechyd a gofal, Y Gweithle, Plant a Phobl Ifanc yn flaenoriaethau teilwng ond dydy camau gweithredu ("Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:") y Cynllun Strategol ddim yn adlewyrchu'r tair thema. Mae ambell gam gweithredu yn ymwneud â'r tri maes blaenoriaeth ond maen nhw'n gyffredinol iawn ar y cyfan felly mae'n anodd gweld sut y bydd yn gwella profiad pobl yn y tri maes penodol.

Yn ogystal, mae angen blaenoriaethu gwaith technegol a manwl mewn meysydd penodol megis gofal iechyd ac addysg. Bydd rôl bwysig gan Gomisiynydd y Gymraeg wrth graffu yn fanwl ar y twf sylweddol fydd angen mewn addysg Gymraeg ac mewn paratoad at weithredu'r Bil Addysg Gymraeg.
Mae disgwyl y bydd cynnydd aruthrol mewn dogfennaeth a gaiff ei gynhyrchu ar lefel cyrff llywodraethu ysgol am y tro cyntaf, gan fod disgwyl i bob corff llywodraethol lunio Cynllun Cyflawni. Mae'n debyg y bydd disgwyl i Gomisiynydd y Gymraeg ddadansoddi a herio'r cyrff yma ynghyd â Cymwysterau Cymru, CBAC, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg.

Ym maes addysg Gymraeg, lle Comisiynydd y Gymraeg yw herio'r darparwyr. Dydy hynny ddim yn glir yn y Cynllun Strategol.

Dywedir hefyd y bydd agweddau plant a phobl ifanc at y Gymraeg "a'u harferion wrth ei defnyddio yn awr yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol."
Mae addysg statudol yn rhan bwysig o hynny ond mae gweithgareddau allgyrsiol yn greiddiol hefyd. Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith addysg, ac yn rhywbeth amherthnasol i'r byd

tu hwnt i'r dosbarth, am bod gweithgareddau chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc yn digwydd yn bennaf trwy'r Saesneg.
Credwn fod angen sylw penodol i sicrhau bod gweithgareddau allgyrsiol i blant yn cael eu darparu trwy'r Gymraeg. Hyd yma mae'r Comisiynydd wedi methu a sicrhau'r hawl a'r cyfle i blant a phobl ifanc gael gwersi nofio Cymraeg, i amlygu un enghraifft.

**Iechyd a Gofal**

Dydy cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y maes ddim yn ddigon ynddo'i hun, heb ystyried yr holl waith cynllunio sydd ei angen i sicrhau y rhoddir y Gymraeg wrth galon ein gwasanaethau iechyd a gofal.

O safbwynt y claf mae'r Gymraeg yn hanfodol os mai dyna yw eu dewis iaith, yn enwedig ar gyfer gofal strôc, dementia ac ar gyfer plant. Mae'n hanfodol hefyd bod gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl ar gael yn Gymraeg yn hygyrch ac yn amserol.

Yn ogystal, mae Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023 yn datgan yn glir fod *"cael gafael ar wasanaethau yn y Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i ansawdd y profiad cyffredinol a chanlyniadau iechyd a llesiant llawer o siaradwyr Cymraeg."*[3]

Ymhellach, mae Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau (LLC, 2022) yn gosod yr addewid y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o ddarpariaeth Gymraeg. Am hynny, mae arweinyddiaeth gref, mapio data a chynllunio'r gweithlu yn themâu allweddol o fewn camau gweithredu'r fframwaith - ond mae diffyg cynllunio a gweithredu effeithiol yn llesteirio ymdrechion i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg gan ychwanegu at ddioddefaint defnyddwyr gwasanaeth. Galwn ar y Comisiynydd i fabwysiadu rôl flaenllaw wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfri ar holl gamau gweithredu Fframwaith Mwy na Geiriau.

Hepgorwyd gofal sylfaenol o Safonau Iaith y sector iechyd, ond fe gafodd y sector ei chynnwys mewn rheoliadau ar wahan, cyfochrog yn 2019. Nid ydy Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yn cyflwyno'r un hawl gorfodol o werth. Mae hyn yn parhau sefyllfa warthus lle nad oes hawl o hyd i wasanaethau iechyd sylfaenol megis gweld meddyg teulu neu ddeintydd sy'n medru Cymraeg. Mae angen dychwelyd at hyn ar fyrder. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r rheoliadau felly disgwyliwn i'r Comisiynydd fod ar flaen y gad yn galw ac yn pwyso am gynnwys gofal sylfaenol mewn safonau prif ffrwd a bod hawl i ofal, triniaeth ac ymgynghoriadau yn Gymraeg[4].

---

[3] Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023) - llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-04/canllawiau-statudol-y-ddyletswydd-ansawdd-2023-a-safonau-ansawdd-2023_0.pdf
[4] https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/93542

Yr hyn sydd ar goll o'r Cynllun Strategol arfaethedig o safbwynt iechyd yw sylw at waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sydd yn allweddol o ran gosod systemau technegol er mwyn adnabod ac ymateb i anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth a chynllunio'r gweithlu ar gyfer darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

**Gweithleoedd**

O ran gweithleoedd, rydyn ni o'r farn bod angen mwy o bwyslais ar newid sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae'r rhai sy'n dymuno gweithio trwy'r Gymraeg yn y lleiafrif ac yn nofio yn erbyn y llif, gan mai Saesneg yw iaith nifer o weithleoedd. Yr hyn sydd ei angen yw newid gweithleoedd i fod yn rhai Cymraeg. Fel man cychwyn mae bod angen adnabod a gosod gwaelodlin o gyrff sy'n cynnal gweinyddiaeth fewnol Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yna gosod targed o faint yn fwy fydd yn gwneud erbyn diwedd oes y Cynllun.
Mae pwyslais y camau gweithredu Rheoleiddio dan Amcan 3 yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ond credwn fod angen mynd ymhellach trwy gydweithio'n agos gyda sefydliadau penodol ar sut i'w symud. Tra yn derbyn bod hyn yn digwydd i raddau yn barod, mae angen ehangu hyn, a chydweithio gydag awdurdodau cyhoeddus y mae'r cyhoedd yn dod i gysylltiad rheolaidd â nhw, fel cynghorau sir, ar draws Cymru i gymryd camau tuag at weithio trwy'r Gymraeg.

**Amcan 1**

Mae amheuon gyda ni am "annog sefydliadau i ddefnyddio technoleg a deallusrwydd artiffisial i gynyddu a gwella eu gwasanaethau Cymraeg" fel ffordd o gynyddu gwasanaethau Cymraeg. Gall defnyddio deallusrwydd artiffisial fod o fudd er mwyn rhoi mwy o hyder neu gynyddu sgiliau staff presennol. Ond yn yr un modd gallai gynyddu dibyniaeth ar dechnoleg neu feddalwedd yn hytrach na chreu gweithlu sy'n gallu gweithio'n Gymraeg.

Mae nifer yr ymchwiliadau ar sail cwynion wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddar felly dydy "monitro canran y camau gorfodi sy'n cael eu gweithredu" yn sicr ddim yn ffon fesur ddibynadwy.

**Amcan 2**

Tra yn cytuno bod angen sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mae annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y cyhoedd i wneud defnydd o wasanaethau. Mewn sefyllfa fregus, mae pobl yn teimlo'n ddi-rym ac yn ddi-hyder i fynd ar ofyn darparwyr gwasanaeth am wasanaeth Cymraeg, felly me angen i wasanaeth Cymraeg fod ar gael yn ddiofyn, a heb fod angen cwyno os nad yw ar gael pan dylai fod.

Fel i ni ddweud, mae gallu defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn bwysig er mwyn cadarnhau bod y Gymraeg yn iaith bob dydd, nid yn rhywbeth ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae angen gwneud mwy na "dylanwadu ar feysydd polisi sy'n effeithio yn benodol ar

gyfleoedd plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg". Credwn fod angen gwneud gwaith gydag awdurdodau lleol, chyrff rheoli a darparwyr preifat er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth chwaraeon a diwylliannol sydd ar gael yn Gymraeg.

**Amcan 3**

Does dim dwywaith bod angen i'r Gymraeg fod yn ganolog i benderfyniadau, mae gormod o sefydliadau yn ystyried y Gymraeg dim ond pan fydd yn rhaid iddyn nhw ac mewn ffordd arwynebol er mwyn cydymffurfio â gofynion.

Mae rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn Safonau Polisi nifer o gyrff. Wrth reoleiddio dylai'r Comisiynydd sicrhau bod cyrff yn gwneud mwy na'r lleiafswm sydd i'w ddisgwyl ganddynt, a bod y Gymraeg yn ganolog i benderfyniadau. Ac wrth ddylanwadu, credwn bod angen i'r Comisiynydd ehangu ei gwaith polisi i'r lleol a'r llawr gwlad, yn ogystal â dylanwadu ar y fframwaith polisi a deddfwriaeth cenedlaethol. Yn ein cymunedau mae'r Gymraeg yn bodoli o ddydd i ddydd, ac mae rôl allweddol gan y Comisiynydd i ddatblygu ei gwaith yn y glo mân hwn: yn ymateb i Gynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau lleol, ceisiadau cynllunio unigol o bwys (fel y gwna rheoleiddwyr eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru), yn craffu ar CSGAu a chynlluniau cyflawni Cymraeg lefel ysgol arfaethedig y Bil Addysg, er enghraifft. Cynigiwn felly bod angen creu unedau pwrpasol o fewn eich swyddfa i gyflawni'r nod - Uned Addysg, Uned Cynllunio Gwlad a Thref ayb, a meithrin yr arbenigedd cynllunio ieithyddol sydd ei angen. Mae bwlch yma i'r Comisiynydd ei lenwi.

Mae bwriad hefyd i "ymgysylltu'n bwrpasol â'r cyhoedd er mwyn deall pryd a pham y bydd achosion o ymyrraeth â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn digwydd". Mae angen mwy nag ymgysylltu, mae angen defnyddio gweithdrefn y Mesur yn llawn i annog cwynion am ymyrraeth, ymchwilio ac amlygu'r sawl sy'n gyfrifol am ymyrryd yn hawliau dynol siaradwyr Cymraeg. Bu nifer o achosion effeithiol o hyn yn y gorffennol yn achos sefydliadau fel Bupa.

Un ffordd effeithiol o ddeall pryd a pham nad yw pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yw trwy'r cwynion a dderbynnir gan y cyhoedd. Bydd newid y weithdrefn cwynion fel bod rhaid cwyno wrth y corff am unrhyw fethiant i ddarparu gwasanaeth Gymraeg yn y lle cyntaf yn lleihau gwybodaeth y Comisiynydd o broblemau ac am ddiffyg cydymffurfio.

**Meysydd eraill sydd eu hangen yn y Cynllun Strategol**

O ran isadeiledd yr iaith, nodwn fod Aelodau wedi trafod ar lawr y Senedd y diffyg amserlen sydd ar gyfer datblygu technoleg llais i destun Gymraeg yn llawr. Mewn byd lle mae dyfeisiau cynorthwyol-rhithiol yn rhan o'n bywydau bob dydd, mae'n allweddol o ran dyfodol yr iaith i siaradwyr Cymraeg allu defnyddio'r dechnoleg yn eu hiaith. Felly mae angen i'r Comisiynydd geisio cael yr amserlen honno mewn lle a'i monitro.

Maes arall sydd ar goll o'r Cynllun Strategol yw ymchwil. Mae'r Llywodraeth wedi gosod nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, dim ond chwarter canrif sydd ar ôl i gyrraedd hynny. Mae niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i ostwng, yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 a dydy'r Llywodraeth ddim yn gwneud digon i atal dirywiad.
Er mwyn dal y Llywodraeth i gyfri credwn fod angen uned neu swyddogion ymchwil sy'n gwneud gwaith ar fonitro y taflwybr at filiwn o siaradwyr erbyn 2050 fesul chwarter; ac sy'n mesur effaith yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei roi ar waith fel rhan o gynllun Cymraeg 2050.

Byddwn yn danfon copi o'r ymateb at sylw Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd a llefarwyr y pleidiau ar y Gymraeg yn y Senedd fel y gall fwydo mewn i'w gwaith yn craffu ar waith y Comisiynydd.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon